Adeiladu
Cymru Well

Maniffesto Etholiad Llafur Cymru

2007

Hyrwyddwyd gan Chris Roberts ar ran Llafur Cymru. III dau yn Lafur Cymru, Ty Trafnidiaeth, 1 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd CF11 9HA. Argraffwyd gan Harlequin Print Cyfngedig, Harlequin House, Coed Cae Lane, Pont-y-clun, CF72 9EW.

Labour
Llafur
welshlabour.org.uk

Un ar Ddeg ar gyfer Un ar Ddeg

1. 25,000 o Brentisiaethau
2. Bond Plentyn ychwanegol i bob plentyn sy'n dechrau yn yr ysgol
3. Uchafswm amser aros o 26 wythnos ar y GIG, o'r cyfeirio i'r driniaeth
4. Canolfannau Galw-Heibio ar y GIG mewn fferyllfeydd
5. 100,000 o gartrefi wedi'u gwneud yn ynni-effeithlon a 30,000 o unedau microgynhyrchu
6. Cartrefi Nyrsio Dielw Newydd
7. Disgownt i bensiynwyr sy'n teithio ar drenau, a 50 o gerbydau trên newydd
8. Cronfa genedlaethol o £20 miliwn i'r gwasanaeth ieuenctid
9. 6500 o gartrefi fforddiadwy newydd
10. Trefi Taclus – Cronfa o £16 miliwn i dacluso dinasoedd, trefi a phentrefi Cymru
11. Mamau Symudol – Cymorth ychwanegol ar gyfer Gofal Plant

Bydd Cymru'n wynebu dewis aruthrol o bwysig ar 3ydd Mai

Dewis rhwng Llywodraeth Lafur yn y Cynulliad sydd wedi creu 140,000 o swyddi ychwanegol yn economi Cymru, a gwrthbleidiau a fyddai'n tanseilio'r sylfaen gref a sefydlog honno.

Dewis rhwng Llywodraeth Lafur yn y Cynulliad sydd wedi gostwng amserau aros ysbytai i'w lefelau isaf ers i gofnodion ddechrau cael eu cadw, a gwrthbleidiau a fyddai'n taflu pob targed o'r neilltu ac yn torri'n ôl ar y rhaglenni buddsoddi yr ydym wedi'u cychwyn.

Dewis rhwng Llywodraeth Lafur yn y Cynulliad sy'n benderfynol o greu cymunedau diogel a llewyrchus ym mhob rhan o Gymru, a gwrthbleidiau na allant gytuno ymhlith ei gilydd ac a fyddai bob amser yn ofni gwneud y penderfyniadau caled y mae eu hangen i daclo troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Dewis rhwng Llywodraeth Lafur yn y Cynulliad a all weithio i sicrhau'r 5,500 o swyddi yn yr Academi Hyfforddiant Amddiffyn yn y De, a rhagor o fuddsoddi mewn adenydd yn Airbus yn y Gogledd, drwy gyfrwng partneriaeth gref â Llafur yn San Steffan, a gwrthblaid sy'n dymuno mentro ohoni'i hun gan drin gweddill Prydain fel arch-elyn yn hytrach na phartner yng nghynnydd Cymru.

Dewis rhwng Llywodraeth Lafur yn y Cynulliad sy'n barod i weithredu rhaglen ddeddfwriaethol lawn a defnyddio'r pwerau newydd a fydd gan y Cynulliad o fis Mai 2007 ymlaen, a gwrthbleidiau sydd heb syniad yn y byd, yn cwyno byth a beunydd ac yn dilorni Cymru, a heb y profiad a'r gallu i fanteisio hyd yr eithaf ar y cyfleoedd newydd hyn i Gymru.

Mae'r maniffesto hwn yn rhaglen aeddfed i lywodraeth ar gyfer tymor y Cynulliad o 2007 tan 2011. Mae pobl yng Nghymru yn disgwyl i Lafur fod yn radical ac yn gyfrifol. Dyma i chi faniffesto sy'n un cyfrifol am fod pob eitem ynddo wedi'i chostio, ac fe gaiff ei gwireddu os cawn ni'n hethol. Mae'n radical am ei fod yn mynd ati ag egni newydd i daclo'r sialensiau mawr sy'n ein hwynebu ni yng Nghymru erbyn hyn – materion newydd fel y newid yn yr hinsawdd, a phroblemau cyson fel tlodi plant.

Bydd pleidleisio dros Lafur ar Fai 3ydd yn sicrhau mai dal i berthyn i'r gorffennol fydd talu tâl presgripsiwn; y bydd y cyllid newydd o £1.5 biliwn o Ewrop yn dal i fod ar gael i'r Gorllewin a'r Cymoedd am y saith mlynedd nesaf; y daw'r buddsoddiad enfawr newydd mewn iechyd, addysg a chludiant â gwasanaethau cyhoeddus o safon fyd-eang i bob cwr o Gymru.

Ond rhaid i mi roi un rhybudd.

Os hoffech chi gael Llywodraeth Lafur – rhaid i chi bleidleisio drosti.

Chewch chi mohoni heb bleidleisio.

Chewch chi mohoni os gadewch chi'r pleidleisio i'ch cymydog.

Mae'r Torïaid yng Nghymru'n aros i gipio grym drwy'r drws cefn. Maent wedi treulio'r pedair blynedd diwethaf yn cynllwynio ac yn cynllunio gyda'u cynghreiriaid ym Mhlaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol i gael eu dwylo ar eich gwasanaeth iechyd chi, neu'ch ysgolion neu'ch swyddi chi.

Efallai y credwch chi na allai hynny ddigwydd – ond fe allai, dim ond i chi aros gartref a gadael iddo ddigwydd.

Mewn democratiaeth, mae un ffordd sicr o wneud yn siŵr bod y cynnydd sydd wedi'i wneud yng Nghymru dros y deg mlynedd diwethaf yn parhau.

Pleidleisiwch dros Lafur – ac yna Pleidleisiwch dros Lafur unwaith eto.

Helpwch ni i sicrhau bod ein dyddiau gorau ni yng Nghymru eto i ddod.

Croeso personol gan Peter Hain

Gyda Llafur, mae Cymru wedi cymryd camau enfawr ymlaen ers 1999. Mae mwy o bobl mewn gwaith nag erioed o'r blaen, mwy nag erioed o fuddsoddi yn ein gwasanaeth iechyd, presgripsiynau am ddim i bawb a rhagor o gymorth i bobl hŷn.

Nid ar ddamwain y digwyddodd y cynnydd hwn. Fe ddigwyddodd oherwydd penderfyniadau Rhodri Morgan a'i dîm – ac oherwydd partneriaeth gref Llafur Cymru yn y Cynulliad a San Steffan.

Mae dewis amlwg ar 3 Mai: ymlaen gyda thîm Llafur cryf yn y Cynulliad a San Steffan neu'n ôl i fethiannau'r Torïaid ac at doriadau, dirwasgiad a diweithdra.

Boed o ran taclo tlodi plant, helpu rhagor o bobl i gael gwaith neu wneud ein cymunedau'n fwy diogel a chryf, mae ar Gymru angen i bartneriaeth gref Llafur barhau.

Y dewis arall yw'r hunllef o gael y Torïaid yn ôl yn rhedeg ein hysgolion a'n hysbytai. Does dim angen bod yn ddewin i wybod y difrod a wnaent i Gymru. Eu gwaddol i Gymru oedd cyflwr truenus y gwasanaeth iechyd, dirywiad mewn adeiladau ysgol, diweithdra aruthrol a chymunedau a theuluoedd heb ddim gobaith at y dyfodol. Dyw'r Torïaid ddim wedi newid. Fe aent â ni'n ôl i ddiweithdra, cynnydd mawr mewn amserau aros, a thorri'n ôl ar hyfforddiant. Helpu'r Torïaid i ennill wnaiff pob pleidlais dros Blaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Heddiw, mae Cymru wedi'i thrawsffurfio'n wlad fodern, fywiog lle gallwn ni fod yn falch o'n gorffennol ac yn optimistaidd at y dyfodol.

Helpwch Rhodri a'i dîm yn y Cynulliad i adeiladu Cymru well drwy bleidleisio dros Lafur ar 3 Mai.



Maniffesto Cymru | cynnwys

06: Gwell iechyd i bawb

14: Swyddi o safon mewn gwlad fach glyfar

20: Addysg a chyfle i bawb mewn gwlad sy'n dysgu

25: Cymunedau cryfach a mwy diogel

32: Cymru deg

36: Cymru werdd

Maniffesto Etholiad Llafur Cymru

2007

Gwell iechyd i bawb

Rhagymadrodd

Plaid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yw Llafur ac felly y bydd hi byth. Fe sefydlon ni'r GIG am ein bod yn credu yn egwyddorion cydymdrechu a chydraddoldeb cymdeithasol.

Mae rhai o'r sialensiau sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru heddiw yn fwy nag erioed: poblogaeth sy'n heneiddio, y datblygiadau mewn gwyddoniaeth feddygol a'r cynnydd yn nisgwyliadau cleifion. Ein cenhadaeth yw gwneud y GIG y gorau yn y byd, yn system o ofal iechyd sydd am ddim i bawb pan fydd ei angen, a'r gwasanaethau lleol wedi'u haddasu i ateb anghenion cleifion a sicrhau bywydau iachach.

Yn 2003 fe addawon ni roi rhagor o adnoddau i'r GIG a gwella mynediad y cleifion i'r gwasanaethau. Yn yr etholiad hwn, yr ydym yn falch o allu sefyll ar ein record o fod wedi dyblu cyllideb y GIG a chynyddu traean ar staff y GIG ers datganoli, gan gynnwys dros 8,000 o nyrsys ychwanegol a thros 500 yn rhagor o ymgynghorwyr ysbyty. Yr ydym wedi dileu taliadau presgripsiwn, ac mae amserau aros o fwy nag wyth mis bron â diflannu. Yn ein trydydd tymor, fe ddaliwn i gynyddu'n rhaglen o fuddsoddi i godi safonau gofal cleifion a ffurfio partneriaeth â'r bobl i rwystro afiechyd, ac nid ei drin yn unig. Ac fe gadwn ni bresgripsiynau am ddim i bawb.

Gwella iechyd

Fe wyddom ni fod gwasanaeth iechyd modern yn gwneud llawer mwy na thrin pobl pan fyddant yn sâl. Rhaid iddo hefyd geisio taclo anghydraddoldebau iechyd a rhoi i bobl y cymorth ymarferol y mae ei angen arnynt i fyw bywydau iachach.

Mae Llafur yn y Cynulliad wedi arloesi mentrau i helpu i wella iechyd pobl drwy gyfrwng cynlluniau mor wahanol â'r brecwastau am ddim mewn ysgolion cynradd, nofio am ddim i bobl hŷn, a Her Iechyd Cymru. Fe adeiladwn ni ar y llwyddiant hwnnw drwy fuddsoddi £190m mewn hybu a gwella iechyd dros drydydd tymor.

Fe ddaliwn ni i weithredu fformiwla decach i ariannu iechyd er mwyn gwella iechyd yn ein cymunedau llai ffyniannus. Fe estynnwn ni gwmpas y Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd i helpu i wella'r driniaeth a gaiff cleifion sydd â chyflyrau iechyd cymhleth a chronig fel clefyd Parkinson a chlefyd y galon. Erbyn 2012 fe gwtogwn ni 20 y cant ar farwolaethau o ganser a strôc.

O Ebrill 2 2007 ymlaen, gwaherddir smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig yng Nghymru. Bydd y mesur hwnnw ynddo'i hun yn helpu i arbed rhyw 400 o fywydau'r flwyddyn yng Nghymru. Fe adeiladwn ni ar hynny drwy gynyddu 65% ar wasanaeth y GIG i helpu rhagor o bobl i roi'r gorau i smygu, a darparu rhagor o leoliadau lle mae modd cael gafael ar y gwasanaeth. Fe weithiwn ni gyda chyflogwyr ac undebau llafur i hybu iechyd a lles yn y gweithle ac, ar ôl adolygu cynllun meddygon teulu i atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff, lle gall meddygon, er enghraifft, ragnodi mynediad am ddim i gampfeydd, fe gyflwynwn ni gynigion i sicrhau bod y cynllun ar gael yn ehangach.

I helpu i wella iechyd plant yng Nghymru, fe wellwn ni ansawdd y bwyd mewn ysgolion, ysbytai ac adeiladau cyhoeddus eraill, a chynyddu'r buddsoddi mewn gwella'n ceginau ysgol. Erbyn diwedd ein trydydd tymor, byddwn wedi buddsoddi £34m mewn gwella safonau bwyd ysgol. Fe adeiladwn ni ar lwyddiant y fenter nofio am ddim – er enghraifft, drwy gynnig cyfle i blant yng Nghymru nofio am ddim ym mhyllau nofio'r cynghorau lleol ar y penwythnos. Fe ehangwn ni wasanaeth nyrsio yr ysgolion i gwmpasu lles ein pobl ifanc yn ystod oriau ysgol a thu hwnt i hynny.

Mewn trydydd tymor, fe ddefnyddiwn ni Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i geisio pwerau newydd i gryfhau'r gyfraith ynghylch diogelu plant a gostwng cyfradd symud plant yng Nghymru oddi wrth eu teuluoedd ac i ofal awdurdodau lleol drwy helpu i rwystro problemau rhag troi'n argyfwng.

- I helpu i wella iechyd plant yng Nghymru, fe wellwn ni ansawdd y bwyd mewn ysgolion, ysbytai ac adeiladau eraill, a chynyddu'r buddsoddi mewn gwella'n ceginau ysgol
- Erbyn 2012 fe gwtogwn ni 20 y cant ar farwolaethau o ganser a chlefyd y galon

Gwella Iechyd

Mae Llafur wedi gwahardd smygu mewn mannau cyhoeddus, a bydd hynny'n helpu i arbed 400 o fywydau'r flwyddyn.

Rhoi cleifion yn gyntaf

Gofal sylfaenol, megis meddygon teulu, nyrsys cymunedol a fferyllwyr, sy'n darparu naw deg y cant o holl gyswllt cleifion â'r GIG. Dyna pam, fel yr addawyd, y mae Llafur wedi dal i fuddsoddi mewn gwella gwasanaethau gofal sylfaenol a gwella mynediad y claf i ofal sylfaenol. Fe roddwn ni'r claf yn gyntaf drwy sicrhau bod y gwasanaethau'n hyblyg, yn hygyrch ac yn ymatebol a thrwy roi rhagor o driniaeth yn y gymuned ac mor agos i'r cartref â phosibl.

Mae contract newydd y meddygon yn helpu'r GIG i nodi a thrin rhagor o gleifion sydd â salwch tymor-hir fel diabetes, clefyd y galon, salwch meddwl difrifol ac asthma. Mae mynediad i ofal sylfaenol wedi'i wella, fel y dengys y ffaith y caiff naw deg tri y cant o gleifion eu gweld cyn pen 24 awr ar ôl gwneud cais. Fe ddaliwn ni i ddarparu'r adnoddau ychwanegol i helpu practisau i gynnig apwyntiadau, a drefnir ymlaen llaw, i weld meddyg o ddewis y claf, ac fe ddiwygiwn ni wasanaeth allan-o-oriau y meddygon i'w gwneud yn haws i gleifion gael gafael arno. Fe weithiwn ni gyda phractisau meddygon a Byrddau Iechyd Lleol i'w helpu i estyn oriau eu meddygfeydd i gynnwys oriau gyda'r hwyr ac ar benwythnos.

Fe gynyddwn ni nifer y meddygon ar gyflog fel bod 10% o'r holl feddygon ar gyflog, yn enwedig yn yr ardaloedd lle mae'r her fwyaf o ran eu recriwtio a'u cadw. Fe ehangwn ni'r amrywiaeth o driniaethau a therapïau a roir mewn meddygfeydd a chynyddu nifer y nyrsys sydd wedi ymgymhwyso ac sy'n gallu rhagnodi meddyginiaethau'n annibynnol a darparu gwasanaethau eraill.

Bwriadwn roi rôl helaethach i fferyllwyr lleol, yn enwedig o ran gwneud gwiriadau cyffredin am gyflyrau fel diabetes math-2, pwysau gwaed uchel, a chlefyd y galon. Fe ddatblygwn ni ganolfannau galw-heibio o dan y GIG ac mewn fferyllfeydd fel bod gofal iechyd ar gael yn fwy cyfleus i gleifion.

Mae'r buddsoddi yn y gwasanaethau deintyddol lleol wedi cynyddu naw deg y cant ers 1999. Fe gytunwyd ar gontract newydd i ddeintyddion, ac mae 98 y cant o ddeintyddion wedi'i lofnodi. Yn 2006 yn unig, crëwyd dros 200,000 o leoedd deintyddol, diolch i gontract deintyddol newydd Llafur. Bydd trydydd tymor yn gweld y buddsoddi mewn gwella gwasanaethau deintyddol yn parhau ac fe sicrhawn y gall pawb sy'n dymuno hynny gael cofrestru gyda deintydd ar y GIG.

Mae cynnydd enfawr wedi'i wneud wrth gwtogi ar amserau aros hir i gael triniaeth mewn ysbytai. Ni fydd bron neb yn aros mwy nag wyth mis i gael apwyntiad neu driniaeth mewn ysbyty a chaiff y mwyafrif o bobl eu cyfeirio cyn pen tri mis. Mae'r amserau aros i gael triniaeth am ganser, profion diagnostig a therapi hefyd wedi'u gostwng yn aruthrol. Gyda Llafur, ni fydd neb, erbyn diwedd 2009, yn aros mwy na 26 wythnos ar gyfer yr holl daith o gael ei gyfeirio i gael ei drin, gan gynnwys therapïau a sganiau ac ati. Caiff y mwyafrif o bobl eu trin yn gynt na hynny. Ym mlwyddyn gyntaf ein trydydd tymor, fe hanerwn ni'r amser a gymerir i wneud profion diagnostig. Byddai'r Torïaid yn dileu pob targed yn y GIG gan ddadwneud blynyddoedd o gynnydd a gadael y cleifion i wynebu aros amser hir i gael triniaeth.

Fe ddiwygiwn ni'r ffordd y rheolir Ymddiriedolaethau'r GIG er mwyn rhoi terfyn am byth ar fodel y Torïaid o gystadlu am gleifion ac adnoddau, ac fe wellwn ni atebolrwydd yr Ymddiriedolaethau i gymunedau lleol. Cydweithio, nid cystadlu, fydd nod GIG Cymru. Fe gomisiynwn ni ddadansoddiad annibynnol o allu rheolwyr a chostau gweinyddol GIG Cymru a defnyddio ffrwyth hynny'n sail i'n hymgyrch i symud cymaint o arian â phosibl i wasanaethau'r rheng flaen.

Dros ein hail dymor, yr ydym wedi buddsoddi dros £700m mewn moderneiddio ysbytai a gwasanaethau gofal sylfaenol, gan ragori o lawer ar y £550m a addawyd yn ein maniffesto yn 2003. Mae saith ysbyty newydd wedi'u codi neu ar y gweill, o Borthmadog i'r Rhondda, Cwm Cynon, Merthyr Tudful a Glynebwy ac o Dreffynnon i Ddoc Penfro, ynghyd ag ysbyty mawr newydd a fydd yn gwasanaethu bwrdeistref Caerffili.

Yn ein trydydd tymor fe fuddsoddwn ni dros biliwn o bunnoedd i barhau i foderneiddio cyfleusterau adeiladau ac isadeiledd y GIG, megis TGCh, delweddu diagnostig – er enghraifft, sganwyr MRI – ac offer trin. Bydd hynny'n helpu'r GIG i ymateb i salwch a chyflyrau yn



● Dros ein hail dymor, yr ydym wedi buddsoddi dros **£700m** mewn moderneiddio ysbytai a gwasanaethau gofal sylfaenol, gan ragori o lawer ar y £550m a addawyd yn ein maniffesto yn 2003

● Gyda Llafur, mae'r buddsoddi yn y GIG wedi mwy na dyblu ers 1997

● Heddiw mae **8,000 yn rhagor o nyrsys a 500 yn rhagor o feddygon** ysbyty

● Fe roddwn ni derfyn ar dendro cystadleuol am gontractau glanhau ysbytai i sicrhau y caiff staff glanhau ysbytai eu cyflogi'n uniongyrchol gan y GIG a'u rheoli'n uniongyrchol gan staff clinigol ar y wardiau

gynt ac yn llai ymyrrol nag erioed o'r blaen. Fe weithiwn ni gyda'r sector gwirfoddol a darparwyr arbenigol i sicrhau bod dialysis yr arennau ar gael yn helaethach i gleifion y mae'n well eu trin gartref.

Caiff pob cymuned fynediad hwylus i graidd o wasanaethau ysbyty sy'n ddiogel ac yn sicr eu hansawdd. Yn ogystal, bydd yr amrywiaeth o wasanaethau arbenigol sydd ar gael mewn ysbytai lleol neu yn y gymuned yn cynyddu. Lle bynnag y bydd modd yng Nghymru, fe ddarparwn ni ganolfannau rhagoriaeth lle cynigir yr holl amrywiaeth o wasanaethau arbenigol. Cred Llafur fod gan bob claf yr hawl i gael y driniaeth orau un, ac nid dim ond yr un orau a allai fod ar gael yn lleol. Dyna'r egwyddor a fydd yn dal i lywio'n gweithredoedd ni yn ystod trydydd tymor.

Fe ddarparwn ni barcio am ddim yn ysbytai'r GIG i gleifion sy'n cael cemotherapi, radiotherapi a dialysis yr arennau, a sicrhau gwell mynediad i drefniadau tocyn-tymor i eraill, gan gynnig cyfraddau rhatach i ymwelwyr rheolaidd. Gan weithio gyda grwpiau cleifion, fe adolygwn ni hefyd y gwasanaethau ffôn a theledu i sicrhau tegwch a gwerth am yr arian i'r cleifion. I gwtogi ar y baich ar gleifion a'u teuluoedd, fe gwtogwn ni ar y fiwrocratiaeth sydd ynghlwm wrth hawlio costau teithio i gael triniaeth.

Fe roddwn ni derfyn ar dendro cystadleuol am gontractau glanhau ysbytai i sicrhau y caiff staff glanhau ysbytai eu cyflogi'n uniongyrchol gan y GIG a'u rheoli'n uniongyrchol gan staff clinigol ar y wardiau. Fe ddefnyddiwn ni systemau rheoli perfformiad, ac nid cost a chystadleuaeth, i sicrhau bod y gwasanaethau'n dal i wella.

Mewn trydydd tymor, bydd Llafur yn datblygu ac yn gweithredu Cyn-llun Canser i Gymru, gan gynnwys ymrwymiad i sicrhau a chadw at yr amserau aros byrraf i gael diagnosis a thriniaeth. Bydd hynny'n cynnwys ymrwymiad i sicrhau'r offer diweddaraf un, fel y Sganiwr CT newydd yn Ysbyty Felindre a gaiff ei roi ar waith yn Ebrill 2007, sganwyr MRI newydd ym Merthyr Tudful, Bro Morgannwg ac Abertawe, a chyflymyddion llinol newydd yn Felindre ac yn y Ganolfan Trin Canser yn y Gogledd. Fe roddwn ni derfyn ar loteri codau-post y gofal i gleifion canser drwy sicrhau y gweithredir safonau cenedlaethol cadarn erbyn 2009. Ochr yn ochr â hynny fe ddarparwn ni £2 filiwn i ariannu gwaith creiddiol hosbisau gwirfoddol yng Nghymru, a dyma'r tro cyntaf erioed y bydd help ar gael i dalu eu costau rhedeg.

Mae Llafur yn buddsoddi mewn rhaglen radical i ddiwygio'r Gwasanaeth Ambiwlans ac yn gweithio gyda chleifion a chymunedau i sicrhau y cânt y gwasanaeth y mae arnynt ei angen. Y llynedd, buddsoddodd Llafur dros £70 miliwn yn rhagor i ddarparu 116 o Ambiwlansys Brys newydd a 67 o Gerbydau Gwasanaeth Gofal Cleifion yn ogystal â'r dechnoleg ddiweddaraf o ran cyfathrebu dros y radio a lleoli cerbydau. Gan weithio gyda rheolwyr a'r staff, fe drawsffurfiwn ni'n gwasanaeth ambiwlans o fod yn asiantaeth gludo i'r GIG i fod yn wasanaeth sy'n darparu gofal iechyd symudol go-iawn.

Gan ddefnyddio pwerau newydd y Cynulliad, fe ddeddfwn er mwyn i gleifion a staff yng Nghymru gael system ddiwygiedig a chynhwysfawr o ad-hawlio, a honno'n haws ei deall, yn gynt i'w gweithredu ac yn un sy'n gallu dysgu gwersi er mwyn rhwystro problemau rhag codi eto yn y dyfodol. Fel llais annibynnol cleifion yn y GIG, mae gan ein Cynghorau Iechyd Cymuned rôl allweddol i'w chwarae wrth sicrhau bod ein polisïau iechyd yn ymateb i anghenion y cleifion.

Gan fod y GIG yn gyflogwr ac yn rym economaidd aruthrol yng Nghymru, yr ydym wedi ymrwymo i gwtogi ar ôl-troed amgylcheddol y gwasanaeth drwy hyrwyddo cynllun datblygu cynaladwy iddo. Erbyn 2012 byddwn ni wedi sicrhau bod y cyfan o ystâd y GIG yn garbon-niwtral.

Buddsoddi mewn gofal cymdeithasol

Gan fod Llafur yn deall pa mor bwysig yw buddsoddi mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol o safon fyd-eang, mae'r buddsoddiad blynyddol mewn gofal cymdeithasol wedi codi i fwy na £1 biliwn – cynnydd mewn termau go-iawn o 27% rhwng 2003 a 2007.

● Bydd Llafur yn datblygu ac yn gweithredu Cynllun Canser i Gymru

Yn Well i Gleifion

Fe ddarparwn ni barcio am ddim yn ysbytai'r GIG i gleifion sy'n cael cemotherapi, radiotherapi a dialysis yr arennau.

● I helpu pobl i fyw bywydau annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, fe ddaliwn ni i foderneiddio offer cymunedol a gwasanaethau tele-ofal

Yn ein trydydd tymor fe weithredwn ni'n gweledigaeth tymor-hir i ddiwygio a gwella'r gwasanaethau cymdeithasol i'r rhai mwyaf bregus a'r rhai sydd mewn mwyaf o berygl yn ein cymdeithas. Fe ddatblygwn ni batrwm o ofal a fydd yn amddiffyn defnyddwyr y gwasanaethau, yn hyrwyddo'u hannibyniaeth ac yn eu helpu i gyflawni eu holl botensial. Mae'n hollbwysig i ni wrando ar ddefnyddwyr a gofalwyr, a'u cynnwys yn llawn mewn cynlluniau gofal a datblygiad polisïau yn y maes allweddol hwn.

Mewn trydydd tymor, fe gynyddwn ni allu'r gwasanaethau gofal cymdeithasol drwy fuddsoddi yn y gweithlu gofal cymdeithasol. Â chynllun gweithlu cenedlaethol yn gefn, fe wellwn ni sgiliau a chymwysterau y bobl sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol, waeth pwy sy'n eu cyflogi, er mwyn i o leiaf 50% o'r staff gofal mewn cartrefi preswyl fod wedi ymgymhwyso hyd at NVQ lefel 2 mewn gofal, neu gymhwyster cydradd, ac i holl reolwyr cartrefi gofal fod wedi ymgymhwyso'n broffesiynol mewn gwaith cymdeithasol neu nyrsio ac ag NVQ lefel 4 ym maes rheoli gofal.

Er mai ag arian cyhoeddus y telir 80% o gost gwasanaethau gofal cartref, yr ydym yn sylweddoli bod angen gwella rhagor arnynt. Fe ddiwygiwn ni ragor ar y ffordd y codir tâl am wasanaethau gofal cartref gan wneud 10,000 o bobl anabl yn well eu byd, ac eithrio 4,000 o bobl anabl rhag talu tâl o gwbl. Fe geisiwn ni hefyd bwerau newydd i ganiatáu i drydydd tymor o Lywodraeth Lafur yn y Cynulliad ddiwygio'r gyfraith ynghylch codi am ofal cartref fel bod y taliadau am wasanaethau tebyg yn fwy cyson ac yn amrywio llai ledled Cymru.

I helpu pobl i fyw bywydau annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, fe ddaliwn ni i foderneiddio offer cymunedol a gwasanaethau tele-ofal.

Gan adeiladu ar argymhellion Adolygiad Beecham, fe sefydlir Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn nhiriogaeth pob awdurdod lleol i ddod â'r cyrff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol ynghyd. Fe fynnwn ni ragor o gydweithio a chydweithredu gan wahanol asiantaethau, yn enwedig o ran anghenion gofal yr henoed a'r bobl fwyaf bregus. Ategir gwaith y Byrddau â Chytundebau Gwasanaethau Lleol a chan set o safonau cenedlaethol. Bydd hynny'n sicrhau y caiff pobl ledled Cymru y lefel o wasanaeth y mae ganddynt hawl iddi.

Mae llwyddiant Llafur wrth gwtogi'n sylweddol ar yr oedi wrth drosglwyddo gofal wedi helpu i leddfu'r pwysau ar ysbytai ac ar y GIG ac wedi sicrhau bod pobl yn cael y gofal y mae ei angen arnynt, a hynny mor agos i'w cartref â phosibl. Ond mae angen cynnydd pellach a'i gynnal dros y tymor hir. Mae cwtogi ar oedi wrth drosglwyddo gofal yn faes lle disgwyliwn ni weld cydweithio effeithiol a chynnydd drwy'r Byrddau Gwasanaethau Lleol. Fe helpwn i ddatblygu cartrefi nyrsio dielw i roi i bobl hŷn a'u teuluoedd y sicrwydd y mae arnynt eu hangen.

Gan fod gofalwyr yn chwarae rôl amhrisiadwy ym mhob teulu ac ym mhob cymuned yng Nghymru, fe adolygwn ni'n Strategaeth Gofalwyr a'i diweddaru er mwyn rhoi gwell cymorth i rôl gofalwyr, gan gynnwys buddsoddi rhagor mewn gwasanaethau gofal seibiant. Yn ddiweddar, yr ydym wedi darparu cronfa ychwanegol o £3 miliwn i ofalwyr sy'n gofalu am bobl â phroblemau iechyd meddwl tymor-hir ac fe ddarparwn ni £1 miliwn yn rhagor ar gyfer gwasanaethau gofal seibiant brys. Fe gynyddwn ni wasanaethau gofal preswyl, gan gynnwys rhai gan awdurdodau lleol a'r sectorau preifat a dielw. Drwy fuddsoddi a thrwy dargedu'n gweithredoedd, fe weithiwn ni i wella iechyd a lles gofalwyr. Fe gynhaliwn archwiliad o GIG Cymru gan geisio rhwystro gwahaniaethu ar sail oedran ym maes cyflogaeth neu driniaeth.

● Fe adolygwn ni'n Strategaeth Gofalwyr a'i diweddaru er mwyn rhoi gwell cymorth i rôl gofalwyr, gan gynnwys buddsoddi rhagor mewn gwasanaethau gofal seibiant

Swyddi o safon mewn gwlad fach glyfar

● Dros £700 miliwn o gymorth i fusnesau ers 1999

Rhagymadrodd

Gyda Llafur yn llywodraethu, mae economi Cymru'n cael ei drawsnewid yn gyflym. Heddiw yng Nghymru mae mwy o bobl mewn gwaith nag erioed o'r blaen gan fod cyfanswm y swyddi 140,000 yn fwy nag adeg datganoli wyth mlynedd yn ôl. Mae cyflogaeth wedi codi'n gynt o lawer a diweithdra wedi gostwng yn llawer cynt yng Nghymru nag ym Mhrydain gyfan. Pan ddaeth Llafur i rym yn y Cynulliad wyth mlynedd yn ôl, yr oedd diweithdra 30 y cant yn uwch yng Nghymru nag ym Mhrydain gyfan – heddiw, mae ef bump y cant yn is.

Ond mae rhagor i'w wneud i sicrhau y gall pobl a busnesau yng Nghymru fwynhau ffrwyth eu llwyddiant yn economi hynod gystadleuol a thechnolegol ddatblygedig yr 21ain ganrif. Gyda Llafur, bydd Cymru'n taclo sialensiau marchnadoedd agored, y newid yn yr hinsawdd a'r gystadleuaeth gynyddol sy'n dod o economïau enfawr China ac India.

Mewn trydydd tymor bydd Llywodraeth Lafur yn y Cynulliad yn gosod arloesi, sgiliau a gwyddoniaeth wrth galon economi Cymru. Fe adeiladwn ni economi llwyddiannus a chynaladwy drwy ddatblygu'r isadeiledd modern y mae ei angen ar fusnesau, a thrwy helpu pobl i gyflawni eu potensial.

Llafur a sicrhaodd statws Amcan Un i 2 filiwn o bobl sy'n byw yn y Gorllewin, y Cymoedd a llawer o'r Gogledd ar gyfer y cyfnod rhwng 2000 a 2007. Mae llwyddiant y cynllun yn ddigon amlwg. Mae diweithdra yn ardal Amcan Un wedi gostwng yn gynt nag yng ngweddill Cymru ac incwm cartrefi wedi codi'n gynt nag yng ngweddill Cymru ac ym Mhrydain drwyddi draw. Mae gwerth mwy na £3 biliwn o fuddsoddiad wedi'i sicrhau a thros 40,000 o swyddi wedi'u creu neu wedi'u diogelu. Mae Llafur yn awr wedi mynd ymlaen i sicrhau'r rhaglen a fydd yn olynu Amcan Un ar gyfer y cyfnod 2007 – 2013. Bydd Dwyrain Cymru hefyd yn dal i elwa o raglenni'r Undeb Ewropeaidd. Yn ein trydydd tymor fe anelwn ni'r cymorth hwnnw at brosiectau sy'n cynyddu sgiliau ac sy'n darparu cyfleoedd yn cynnig cyflogaeth hirhoedlog ac o safon, a chymorth i fusnesau.

Economi sy'n barod i wynebu her yr 21ain ganrif

Bydd llwyddiant economi Cymru yn y dyfodol yn dibynnu ar hyd a lled ein llwyddiant wrth ddatblygu'n sgiliau, wrth fanteisio ar dechnoleg newydd ac wrth ddefnyddio gwyddoniaeth i sbarduno twf economaidd. Yn ein trydydd tymor, fe roddwn ni sgiliau, gwyddoniaeth ac arloesi wrth galon ein strategaeth ar gyfer yr Economi Gwybodaeth.

I'n galluogi i sicrhau hynny, yr ydym wedi datblygu polisi arbennig ar wyddoniaeth i Gymru. Ynddo fe nodir ein gweledigaeth tymor-hir a fydd yn cyffroi diddordeb ysol mewn gwyddoniaeth a thechnoleg yng nghenedlaethau'r dyfodol. Fe ddatblygwn ni'r cyfleoedd dysgu i'n pobl ifanc er mwyn datblygu'r sgiliau a'r ddealltwriaeth y mae eu hangen i gynorthwyo busnesau modern llwyddiannus. Fe helpwn ni i ddatblygu Canolfannau Ymchwil Busnes Cenedlaethol newydd o safon fyd-eang yn ein prifysgolion.

Fe feithrinwn ni gysylltiadau mwyfwy agos rhwng addysg uwch a byd diwydiant i helpu i fanteisio i'r eithaf ar y technolegau a'r arloesi sy'n codi yn y marchnadle. Bydd Llafur yn gosod Cymru ar flaen y datblygiadau technolegol drwy barhau â'n cymorth ariannol i fenter, arloesi a thechnoleg. Bydd ecsbloetio'r arbenigedd yn ein prifysgolion yn ysgogi twf economaidd a swyddi yn y dyfodol. Fe gymerwn ni gamau i helpu i fasnacheiddio ymchwil prifysgolion. Fe roddwn bwys newydd ar greu Cymru Ddigidol. Cymru fydd y genedl gyntaf ym Mhrydain i droi'n llwyr at signalau teledu digidol. Bydd Busnes Creadigol Cymru a'r cyfan o Lywodraeth y Cynulliad yn sicrhau bod Cymru'n cael y budd mwyaf o'r newidiadau hynny.

Cefnogi menter

Mae gan Lafur record ddiguro o gynorthwyo busnesau. Dros yr wyth mlynedd diwethaf, mae Llafur wedi darparu sawl biliwn i gynorthwyo busnesau yng Nghymru gan sicrhau a chreu miloedd o swyddi a rhoi i gwmnïau y sefydlogrwydd a'r cymorth y mae arnynt eu hangen i fod yn fwyfwy cystadleuol a llwyddiannus.

● Sefydliadau ymchwil busnes newydd yn ein prifysgolion

● Fe gyflwynwn ni Gronfa Buddsoddi Hyblyg Unigol o hyd at **£200 miliwn** i fusnesau

Mae uno Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru ac ELWa â Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi i fusnesau y gwasanaeth cymorth di-dor y mae arnynt ei angen. Fe awn ni â'r diwygio hwnnw ymhellach a chyflwyno model newydd o gymorth busnes sydd ym mhob agwedd ar ei waith yn canolbwyntio ar y cwsmer.

I ategu'r patrwm newydd, fe gyflwynwn ni Gronfa Buddsoddi Hyblyg Unigol o hyd at £200 miliwn i fusnesau, a 200 o reolwyr perthynas â'r cwsmer i ddarparu un pwynt cysylltu rhwng busnesau a Llywodraeth y Cynulliad. Fe ganolbwyntiwn ni ar helpu cwmnïau da i greu rhagor o swyddi o werth uwch, yn enwedig drwy'r Banc Gwybodaeth ar gyfer Busnes. Bydd disgwyl i gwmnïau sy'n cael cymorth ariannol gan Lywodraeth y Cynulliad weithredu safonau uchel o gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

Byddwn ni'n helpu ac yn annog cwmnïau yng Nghymru i gystadlu'n llwyddiannus am y nifer fwyaf o gontractau drwy wefan gwerthwchigymru a Gwerth Cymru. Disgwyliwn weld rhagor o gwmnïau lleol yn ennill busnes gan awdurdodau lleol, y GIG a chyrff cyhoeddus eraill.

Llwyddo drwy Bartneriaeth

Mae Llafur yn deall bod busnesau'n llwyddo lle bo partneriaeth gymdeithasol yn gryf. Ochr yn ochr â'r cymorth sylweddol a roddwn ni i fusnesau, fe sefydlwn ni Gronfa Moderneiddio Undebau i helpu'r undebau llafur yng Nghymru i chwarae eu rôl fel partneriaid modern yn economi Cymru ac yn y gweithle.

Mae Cronfa Ddysgu Undebau Cymru yn gynllun a roddodd £4.6 miliwn i 104 o wahanol brosiectau yn ein hail dymor. Fe adeiladwn ar ei lwyddiant drwy ddarparu rhagor o adnoddau i Gronfa Ddysgu Undebau Cymru, gan hwyluso'i phrosesau i'w gwneud hi'n fwy hygyrch a chan gefnogi gwaith rhagorol y Cynrychiolwyr Dysgu. Byddai'r pleidiau eraill yn tanseilio'n llwyddiant economaidd drwy gwtogi ar Gronfa Ddysgu Undebau Cymru.

Buddsoddi yn ein dyfodol

Bydd Llafur yn dai i fuddsoddi mewn menter, sgiliau, arloesi a thechnoleg.

Gyda Llafur, bydd gweithgynhyrchu'n dal i fod yn rhan allweddol o'n llwyddiant economaidd yn y dyfodol. Mae i weithgynhyrchu yng Nghymru ddyfodol cynaladwy os buddsoddir yn elfennau allweddol ei lwyddiant – menter, sgiliau, arloesi a thechnoleg. Gan weithio mewn partneriaeth â busnesau ac undebau llafur, fe helpwn ni i ddatblygu Fforwm Gweithgynhyrchu ac Academïau Sgiliau mewn gweithgynhyrchu a meysydd eraill. Bydd y rheiny'n darparu hyfforddiant ac ymchwil arbenigol i helpu busnesau i gystadlu yn yr economi byd-eang.

Yn ei amrywiaeth cynyddol y gorwedd cryfder economi Cymru. Bydd gweithgynhyrchu'n dal i gyfrannu'n sylweddol i economi mwyfwy amrywiol yng Nghymru. Bydd Llafur yn dal i fuddsoddi yn llwyddiant gweithgynhyrchu yn y dyfodol ac yn holl weithgareddau economaidd eraill Cymru drwy fuddsoddi mewn menter, sgiliau, arloesi a thechnoleg.

Sicrhau cyflogaeth lawn

O dan y Torïaid, yr oedd diweithdra tymor-hir ac aruthrol yn bla ar Gymru ac yn deirgwaith cymaint ag yw ef heddiw. Condemniwyd cenedlaethau o bobl ifanc i fyw ar y dôl gan lywodraeth a phlaid a gredai fod diweithdra'n bris a oedd yn werth ei dalu, a defnyddio ymadrodd cywir y Torïaid.

Llwyddiant mwyaf Llafur yw gwrthdroi gwaddol y Torïaid. Bydd Llafur yn dal i gynorthwyo ac ariannu'r Fargen Newydd, rhaglen sydd wedi helpu dros 100,000 o bobl i gael gwaith. Diolch i reolaeth Llafur dros yr economi, a'n cymorth i fusnesau, mae mwy o bobl mewn gwaith heddiw – 1,352,000 ohonynt, o'i gymharu â 1,212,000 ar ddechrau datganoli – nag erioed o'r blaen.

Bydd y buddsoddiad anferth yn yr Academi Hyfforddiant Amddiffyn ym Mro Morgannwg yn gyfraniad enfawr i economi Cymru drwy gydol y degawd nesaf ac ymhell i'r dyfodol gan y bydd yn cynnig 5,500 o swyddi amser-llawn a 5,500 o hyfforddeion ar y safle, gan ennyn eiddigedd y byd ym maes hyfforddiant sgiliau.

● Gan weithio mewn partneriaeth â busnesau ac undebau llafur, fe helpwn ni Fforwm Gweithgynhyrchu ac Academïau Sgiliau i ddatblygu mewn gweithgynhyrchu a meysydd eraill

● Fe gyflwynwn ni gynlluniau gwaith Ysgol Gyrfa i helpu'r di-waith tymor-hir i gael swyddi yn y sector cyhoeddus ac yna i symud ymlaen ymhellach

Heddiw, mae diweithdra wedi gostwng yn gynt yng Nghymru nag yng ngweddill Prydain. Ein nod yw creu cymdeithas â chyflogaeth lawn yng Nghymru gan roi cyfle i bawb gyflawni ei botensial drwy waith ac astudio a hyfforddiant.

Gan weithio mewn partneriaeth â Llafur yn San Steffan, fe ddaliwn i gynnig a thargedu cymorth arbenigol i helpu pobl i symud oddi ar fudd-daliadau ac i mewn i waith, a thaclo segurdod economaidd. Bydd Llafur yn estyn y Cynllun Paru Swyddi a'r cynllun Yn Awyddus i Weithio i gynnwys holl diriogaeth Blaenau'r Cymoedd. Fe dargedwn ni gymorth i helpu rhieni unigol i ddod o hyd i waith ac aros ynddo, gan gynnwys cymorth i fentrau cydweithredol sy'n darparu gofal brys i blant menywod sydd mewn gwaith. Fe weithiwn ni gyda'r Llywodraeth Lafur yn San Steffan i helpu ardaloedd fel y Rhyl i gynyddu hyd yr eithaf y manteision a ddaw o'u statws Strategaeth Dinasoedd.

Fe weithiwn ni o fewn cyfraith Ewrop i annog pob prosiect adeiladu yn y sector cyhoeddus i gynnwys cymalau sy'n pennu cyfleoedd i'r di-waith tymor-hir gael gwaith a hyfforddiant. Fe gynorthwywn ni weithleoedd cynhalgar i bobl anabl gael gwaith, gan gynnwys gwneud hynny drwy bwrcasu cyhoeddus.

Fe gyflwynwn ni gynlluniau gwaith Ysgol Gyrfa i helpu'r di-waith tymor-hir i gael swyddi yn y sector cyhoeddus ac yna i symud ymlaen ymhellach.

Fe gynhaliwn ni raglenni cydweithredol fel Meddwl Iach yn y Gwaith i helpu pobl i oresgyn problemau iechyd meddwl sy'n eu rhwystro rhag ymuno â'r gweithlu neu rhag cadw eu lle ynddo.

Hyfforddiant

Bydd y buddsoddiad anferth yn yr Academi Hyfforddiant Amddiffyn ym Mro Morgannwg yn gyfraniad enfawr i economi Cymru.

Hyrwyddo Cymru i sylw'r byd

Gan fod iddi harddwch naturiol nodedig, treftadaeth unigryw a chyrchfannau sy'n arwain y byd, mae Cymru'n gyrchfan o'r radd flaenaf i dwristiaid. Mae'r diwydiant eisoes yn un o'n sectorau pwysicaf ac amcangyfrifir ei fod yn cynhyrchu £2 biliwn o refeniw bob blwyddyn i economi Cymru, ond bydd gofyn buddsoddi mewn sgiliau, gwasanaethau a lleoliadau i barhau i lwyddo mewn marchnad fyd-eang sy'n fwyfwy cystadleuol.

Mae uno Bwrdd Croeso Cymru â Llywodraeth y Cynulliad yn golygu y caiff ein diwydiant twristiaeth well cymorth i ateb gofynion newydd y farchnad. I wireddu'n gweledigaeth o ddiwydiant twristiaeth broffidiol ac arloesol, byddwn ni'n marchnata Cymru fel cyrchfan flaenllaw i dwristiaid ac yn dangos yr hyn sydd gan Gymru i'w gynnig drwy gyfrwng digwyddiadau fel Cwpan Ryder 2010 a Phrawf y Lludw yn 2009. Lle bo modd, byddwn ni'n sicrhau lledu manteision y digwyddiadau hynny ledled Cymru.

Fe lynwn ni wrth ein hymrwymiad i'r diwydiant twristiaeth drwy hybu Cymru'n gryf mewn marchnadoedd allanol, a thrwy fuddsoddi'n strategol mewn cyfleusterau ac mewn sgiliau i weithwyr. Fe gynorthwywn ni'r diwydiant wrth i'r farchnad symud mwyfwy at wyliau llawer byrrach ac at rai sy'n seiliedig ar weithgareddau.

● Fe lynwn ni wrth ein hymrwymiad i'r diwydiant twristiaeth drwy hybu Cymru'n gryf mewn marchnadoedd allanol, a thrwy fuddsoddi'n strategol mewn cyfleusterau ac mewn sgiliau i weithwyr

● I wireddu'n gweledigaeth o ddiwydiant twristiaeth broffidiol ac arloesol, byddwn ni'n marchnata Cymru fel cyrchfan flaenllaw i dwristiaid ac yn dangos yr hyn sydd gan Gymru i'w gynnig drwy gyfrwng digwyddiadau fel Cwpan Ryder 2010 a Phrawf y Lludw yn 2009

Addysg a Chyfle i Bawb mewn Gwlad sy'n Dysgu

Rhagymadrodd

I Lafur, mae addysg a dysgu gydol oes bob amser wedi bod yn ffordd o sicrhau rhagor addysg gan o ffyniant a chyfiawnder cymdeithasol. Yr ydym yn falch o'n record o adeiladu cyfundrefn addysg a hyfforddiant sydd wedi'i gwneud yng Nghymru i ateb anghenion Cymru. Diolch i fuddsoddiad a diwygiadau Llafur, mae cyflawniadau addysgol wedi cynyddu, rhagor o leoedd i blant wedi'u creu, brecwastau am ddim wedi'u cyflwyno mewn ysgolion cynradd, cynghorau ysgol wedi'u sefydlu a dysgu yn y gweithle wedi'i ehangu. Heddiw, mae Cymru unwaith eto'n wlad sy'n enwog am ei hawydd angerddol i ddysgu. Yr ymrwymiad a roddwn yw darparu cyfleoedd i gael addysg a hyfforddiant sydd cystal ag unrhyw rai yn y byd.

Rhagoriaeth, cyfle a chyfiawnder cymdeithasol yw'r gwerthoedd a ardelwn wrth barhau i drawsffurfio'n cyfundrefn addysg mewn trydydd tymor. I wneud hynny, fe ddaliwn i gynyddu'r buddsoddi ym mhob maes ym myd addysg, dysgu gydol oes a sgiliau, a gwella safonau. Mae athrawon, darlithwyr, gweithwyr ieuenctid ac ymarferwyr eraill oll yn chwarae rolau hollbwysig wrth ddarparu addysg a hyfforddiant sy'n gwella'n barhaus. Fe ddaliwn i gynorthwyo'u datblygiad proffesiynol ac i ddisgwyl cyfraniadau o safon ganddynt.

● Yn ystod ein dau dymor cyntaf, fe wnaethom greu 23,000 o leoedd gofal plant a darparu gofal meithrin am ddim i blant tair a phedair oed

Y dechrau gorau mewn bywyd

Mae pob plentyn yn haeddu cael cyfle i lwyddo ym myd addysg gan mai dyna'r dechrau gorau mewn bywyd i'w helpu i gyflawni ei botensial. Yn ystod ein dau dymor cyntaf, fe gyflwynon ni leoedd meithrin rhan-amser am ddim i blant tair a phedair oed, creu 23,000 yn rhagor o leoedd gofal plant, rhagbrofi'r Cyfnod Sylfaen a chyflwyno Dechrau'n Deg.

O 2008 ymlaen, fe gyflwynwn ni'r Cyfnod Sylfaen arloesol, sy'n seiliedig ar weithgarwch, i blant tair i saith oed mewn ysgolion a sefyllfaoedd blynyddoedd-cynnar yng Nghymru, ac ategu hynny â buddsoddi £10 miliwn ynddo bob blwyddyn.

Ysgolion o safon fyd-eang

Dros y tair blynedd diwethaf yn unig, yr ydym wedi buddsoddi dros £667m ar fwy na 1,400 o brosiectau adeiladu ysgoiion

Fe ehangwn ni'r ddarpariaeth gofal plant ledled Cymru a'i gwneud yn ddigon fforddiadwy a hyblyg i ateb gofynion bywyd gweithio heddiw. Fe ddarparwn, yn arbennig, drwy'r cynllun Dechrau'n Deg, ofal rhan-amser o safon ac am ddim i bob plentyn 2 oed yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, yn ogystal â chynyddu cymorth ymwelwyr iechyd, rhaglenni magu plant a gwasanaethau eraill. Bydd hynny'n helpu'r rhieni sy'n economaidd segur ar hyn o bryd i ddod o hyd i waith a thrwy hynny daclo un o wreiddiau tlodi plant.

Ysgolion o safon fyd-eang

Mae darparu ysgolion cyfun yn dal i fod yn gonglfaen ein cyfundrefn addysg.

Dros y tair blynedd diwethaf yn unig, yr ydym wedi buddsoddi £667m ar fwy na 1,400 o brosiectau adeiladu ysgolion. Ar ôl blynyddoedd o esgeulustod y Torïaid, yr ydym wrthi'n codi'r ysgolion o safon fyd-eang y mae plant, athrawon a rhieni'n eu haeddu. Fe barhawn ni â'r momentwm hwnnw mewn trydydd tymor tan i bob ysgol yng Nghymru fod yn addas at ddiben y cwricwlwm modern. Yn unol ag argymhellion y Gwasanaeth Tân, fe osodir taenellwyr ym mhob ysgol newydd a phob ysgol a gaiff ei hailwampio. Fe roddwn ni gyllid uniongyrchol i ysgolion lleol ar gyfer prosiectau sy'n gwella amgylchedd yr ysgol ac yn gwneud ysgolion yn fwy cynaladwy. Fe gynyddwn ni'n hymgyrch i wneud pob ysgol yn ysgol gymunedol ac i drefnu bod yr adeilad a'r cyfleusterau, gan gynnwys y ddarpariaeth gofal plant a chlybiau ar ôl ysgol, ar gael i bawb sy'n byw yn yr ardal leol.

Fe ddatblygwn ni'r cwricwlwm i'r rhai saith i bedair ar ddeg oed er mwyn iddo fod yn rhan bendant a chydlynol o'n cyfundrefn addysg ac adeiladu ar yr ymagweddau a gychwynnwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen ac sy'n paratoi'n pobl ifanc ar gyfer y dewisiadau allweddol y bydd angen iddynt eu gwneud cyn symud ymlaen i gael addysg a hyfforddiant rhwng 14 ac 19 oed. Byddwn ni'n sicrhau, yn arbennig, eu bod yn dal i ddod yn eu blaen wrth symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

● Bellach, mae 790 o ysgolion cynradd wedi ymrwymo i gynnig cynllun Llafur i roi brecwastau am ddim

● Fe estynnwn ni'r dewis o gyrsiau sydd ar gael i'r rhai 14-19 oed drwy ddiwygio'r cwricwlwm ysgol

● Fe wnawn ni'n siŵr bod cyfle i astudio ar gyfer y Fagloriaeth Gymreig yn bod ym mhob rhan o Gymru

Fe estynnwn ni'r dewis o gyrsiau sydd ar gael i'r rhai 14-19 oed drwy ddiwygio'r cwricwlwm ysgol a darparu cyfleoedd dysgu galwedigaethol newydd. I gau'r 14–19 oed. I gau'r bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng ysgolion, fe ehangwn ni'r rhaglen ariannu Rhagori a dargedir er mwyn i bobl ifanc yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig allu codi lefel eu cymwysterau.

Bydd y cyflwyno ar y Bac Cymreig, a fydd yn cychwyn ym Medi 2007, yn parhau fel bod modd i bob person ifanc rhwng 14 a 19 oed allu astudio ar gyfer y cymhwyster hwnnw mewn ysgolion, colegau addysg bellach a sefyllfaoedd dysgu yn y gwaith erbyn 2011. Mae'r Bac yn gamp o bwys gan Lafur Cymru dros ei dau dymor cyntaf. Mae mwy a mwy o ysgolion o bob rhan o Gymru wrthi'n llofnodi i gynnig y cymhwyster arloesol a chyffrous hwn sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr ennill cymhwyster lletach a magu profiad ehangach o ddysgu. Fe fanteisiwn ni'n gynnar ar gyfle i ddefnyddio'r pwerau deddfwriaethol newydd y mae'r Cynulliad eisoes wedi'u cael i roi sylfaen gadarnach i agenda newydd Llafur ar gyfer y rhai 14-19 oed.

Fe gynyddwn ni'r camau i helpu pob person ifanc i gyflawni ei holl botensial. Byddwn yn darparu rhagor o gymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn dal i ddatblygu'n polisïau Gwrth-Fwlio ac yn rhoi cymorth priodol i'r rhai sydd wedi'u gwahardd. Fe gymerir camau i roi sylw i'r anghydraddoldeb mewn perfformiad, yn enwedig gan fechgyn a rhai grwpiau lleiafrifol ethnig.

Fe gynigiwn ni gymorth proffesiynol pwrpasol i bobl ifanc 16 a 19 oed sydd heb fod mewn swydd, addysg neu hyfforddiant i'w hannog i ailgydio mewn addysg, hyfforddiant neu wneud rhyw ffurf ar wirfoddoli. Fe fuddsoddwn ni mewn penodi gweithwyr ieuenctid allgymorth a fydd wedi'u hyfforddi'n arbennig i weithio gyda phobl ifanc sydd heb fod yn cael addysg neu hyfforddiant.

Fe anogwn ni lawer ar gynghorau lleol i ymateb yn gadarnhaol i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg. Fe anogwn ni ysgolion cyfrwng Saesneg i gynnig y dewis o gymryd rhai pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ysgolion iach

Fe gymrwn ni gamau i dacio problem gynyddol gordewdra plant a gwella iechyd plant yn yr ysgolion.

Fe gymerwn ni gamau i daclo problem gynyddol gordewdra plant a gwella iechyd plant yn yr ysgolion, gan gynnwys gwneud hynny drwy fuddsoddi rhagor mewn 'campfeydd gwyrdd' ac offer ymarfer diogel mewn meysydd chwarae. Mae Llafur Cymru wedi cyflawni ei hymrwymiad i gyflwyno brecwastau am ddim yn ein hysgolion cynradd, ac mae 50% o ysgolion bellach wedi ymrwymo i'r cynllun ac fe ddaliwn i'w ehangu. Byddwn ni hefyd yn gwella safon maethyddol bwyd ysgol ac ansawdd ceginau ysgol, yn ogystal â chynyddu nifer yr Ysgolion Iach. Fe ddaliwn ni i wella chwaraeon ysgol a cheisio cael pobl ifanc i gymryd rhan mewn o leiaf ddwyawr o chwaraeon ysgol bob wythnos.

Dysgu ar gyfer Oes

Mewn trydydd tymor, bydd Llywodraeth Lafur yn y Cynulliad yn trawsffurfio'r ddarpariaeth dysgu gydol oes yng Nghymru. Byddwn yn sicrhau y caiff pob oedolyn gyfle i ddysgu sgiliau newydd ac ennill cymwysterau, boed mewn sector ôl-16 diwygiedig, dysgu yn y gwaith, addysg gymunedol, addysg oedolion neu addysg uwch.

Fe fuddsoddwn ni £20 miliwn yn y gwasanaeth ieuenctid i gynnig rhagor o gyfle i bobl ifanc ac i helpu i ddatblygu'n Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid. Mae gan y gwasanaeth ieuenctid rôl hollbwysig i'w chwarae wrth sicrhau y caiff ein pobl ifanc gyfle yn eu cymunedau i gymryd rhan mewn addysg a datblygiad cymunedol.

Yn dilyn cwblhau arolwg mawr o addysg bellach, fe weithredwn ni ddiwygiadau helaeth i gynnig darpariaeth o safon i bob un o'n rhai 14–19 oed. Fe fuddsoddwn ni yn ein sefydliadau addysg bellach i'w gwneud yn ganolfannau rhagoriaeth i hyfforddiant galwedigaethol a hyfforddiant sgiliau. Yn dilyn ymlaen o'r hyn a wnaed yn ystod yr ail Gynulliad i sicrhau bod cyflogau darlithwyr addysg bellach yn gydradd â chyflogau athrawon, fe wnawn yn siŵr y cânt hyfforddiant cychwynnol a datblygiad proffesiynol sydd o safon debyg i'r hyn a gaiff athrawon.

● Fe godwn ni nifer y Prentisiaethau Modern i **25,000 y flwyddyn**

● Mae bron 1,000 yn fwy o swyddogion yr heddlu, ynghyd â thros 600 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu

● Caiff Cronfa Ddysgu Undebau Cymru ei hehangu

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Cymru wedi gweld ehangu eithriadol ar ddysgu yn y gwaith ac ar y ddarpariaeth sgiliau. Ers 1999, mae nifer y Prentisiaethau Modern wedi codi 7,000 ac mae 104 o brosiectau wedi cael cymorth drwy Gronfa Ddysgu Undebau Cymru.

Fe adeiladwn ni ar y llwyddiant hwnnw er mwyn taclo'r her yn adroddiad Leitch ynglŷn â'r sgiliau y bydd eu hangen ar economi Prydain erbyn 2020. Fe geisiwn ni godi nifer y Prentisiaethau Modern i 25,000 y flwyddyn a pharhau i wella'r ddarpariaeth o ran addysg yn y gwaith. Caiff Cronfa Ddysgu Undebau Cymru ei hehangu. Fe ddatblygwn ni Wasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol gan adeiladu ar waith ein Cwmnïau Gyrfa cyfredol.

Fe ddaliwn ni i fuddsoddi mewn codi lefel y sgiliau sylfaenol ac fe sefydlwn Academïau Sgiliau ar gyfer y sectorau pwysicaf o gyflogaeth yng Nghymru i helpu pobl sydd mewn gwaith i uwchraddio'u sgiliau. Bydd y rheiny'n cynnwys rhwydweithiau o'r grwpiau presennol o'r prif sectorau cyflogaeth, gan gynnwys Cynghorau'r Sectorau Sgiliau a chynrychiolwyr darparwyr addysg a'r undebau llafur.

Mae gan addysg oedolion ac addysg gymunedol rôl bwysig i'w chwarae hefyd. Fe gynorthwywn ni waith Prifysgol y Drydedd Oes a chynnig cyrsiau TGCh am ddim i bobl hŷn.

Gan fod ein prifysgolion yn hollbwysig i ddatblygiad Cymru yn y dyfodol, mae arnom angen iddynt ymwneud llawer iawn â helpu i dyfu'n heconomi, i fod â chysylltiad agosach ag ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac i gynyddu llawer iawn ar y cyfranogi mewn addysg uwch o'n hardaloedd mwyaf difreintiedig. Dyna pam y dymunwn iddynt dyfu'n gryfach drwy gydweithio a, lle bo'n briodol, drwy uno, ac i ddatblygu eu proffiliau ymchwil a menter.

Bydd y trefniadau ariannu newydd yr ydym wedi'u rhoi ar waith ar gyfer addysg uwch a myfyrwyr o 2007/08 ymlaen yn helpu'r sector i gyflawni dros Gymru. Fe gadwn ni at y lefel honno o gyllid yn ystod trydydd tymor, a monitro cynnydd ynghylch ehangu mynediad. Rhagwelwn adolygu'r trefniadau hyn cyn diwedd trydydd tymor y Cynulliad.

Addysg Cyfrwng Cymraeg

Fe anogwn ni gynghorau lleol i ymateb yn gadarnhaol i'r galw cynyddol am addysg drwy'r Gymraeg.

Cymunedau cryfach a mwy diogel

Rhagymadrodd

Gan fod Llafur yn credu bod gan bawb yr hawl i fyw mewn cymunedau glân a diogel, ein nod yw adeiladu cymunedau sydd wedi'u sylfaenu ar y parch a'r cyfrifoldebau sydd gennym i'n gilydd.

Ochr yn ochr â mesurau llym fel gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol, contractau ymddygiad derbyniol a hysbysiadau cosb sefydlog, byddwn ni hefyd yn llym wrth achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r amodau sy'n ei feithrin. Wrth galon y cyfan a wnawn ni bydd ymrwymiad i hawliau a chyfrifoldebau pob un ohonom.

Ochr yn ochr â hynny, fe fuddsoddwn ni yn nyfodol tymor-hir ein cymunedau. Fe wnawn ni'n pentrefi, ein trefi a'n dinasoedd yn lleoedd y bydd pobl yn dymuno byw ynddynt ac yn teimlo'n ddiogel.

Taclo ymddygiad gwrthgymdeithasol

Mae problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn bla ar ormod o gymunedau. Mae'n tanseilio gwead ein cymunedau ac yn gwneud bywyd yn boendod i rai pensiynwyr a theuluoedd sy'n gweithio'n galed ac yn parchu'r gyfraith.

Gan fod troseddu, yn gyffredinol, wedi gostwng 30 y cant a rhagor ers 1997, mae'r siawns o ddioddef trosedd yn is nag ers 1981. Mae mwy nag erioed o swyddogion yr heddlu ar strydoedd Cymru, a bron 1,000 yn fwy nag ym 1997. Fe'u cynorthwyir gan dros 600 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, nad oedd yr un ohonynt yn bod ym 1997.

Gan weithio mewn partneriaeth â Llafur yn San Steffan, fe ymdrechwn o'r newydd i daclo ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy roi i gymunedau, yr heddlu ac awdurdodau lleol y pwerau a'r adnoddau y mae arnynt eu hangen. Fe gryfhawn ni rôl y Partneriaethau Diogel-

● Fe gynorthwywn ni waith Prifysgol y Drydedd Oes a chynnig cyrsiau TGCh am ddim i bobl hŷn

● Fe gynyddwn ni'r buddsoddiad yn y Gronfa Cymunedau Diogelach i **£24m**

wch Cymunedol a rhoi rhagor o lais i gymunedau lleol wrth benderfynu ar flaenoriaethau plismona lleol ac wrth gyfeirio adnoddau i daclo problemau penodol o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fe sefydlwn ni uned ymddygiad gwrthgymdeithasol yn nhiriogaeth pob awdurdod lleol er mwyn i gamau llym a chydlynol gael eu cymryd ym mhob rhan o Gymru.

Fe gynyddwn ni'r buddsoddiad yn y Gronfa Cymunedau Diogelach i £24m dros dymor cyfan y Cynulliad. Anelir y gronfa honno at roi cymorth ac at weithredu os yw'n cymunedau ni'n dioddef o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae camddefnyddio alcohol a chyffuriau'n fygythiad o bwys i ansawdd bywyd yn ein cymunedau. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dyblu ei buddsoddiad i helpu i ailsefydlu'r rhai sy'n gaeth i gyffuriau. Yn y tymor nesaf bydd cronfa o £75 miliwn ar gyfer pedair blynedd i helpu i daclo effeithiau camddefnyddio sylweddau, fel ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu, ac i newid agweddau at alcohol drwy addysgu pobl a'u hannog i'w yfed yn gyfrifol.

Mae cynghorau Llafur Iedled Cymru'n cymryd camau effeithiol yn erbyn gwibdaflu sbwriel, graffiti a baw cŵn. Llafur yn unig sy'n barod i gymryd y camau llym y mae eu hangen i gadw'n cymunedau'n lân a diogel. Ar hyd a lled Cymru, mae Llafur wrthi'n gwrando ar y bobl sy'n dweud wrthym yr hoffent allu ymfalchïo yn eu trefi. Hoffent weld cymryd camau llymach yn erbyn pobl sy'n gollwng sbwriel ac nad ydynt yn ymfalchïo dim yn ein cymunedau a'n mannau cyffredin. Fe wyddom fod ar bobl eisiau strydoedd, glannau afonydd a mannau agored y gallant eu mwynhau ac ymfalchïo ynddynt.

Mewn trydydd tymor fe grëwn ni fenter Trefi Taclus. Bydd hi'n cynnwys cydweithredu pwrpasol i wella cyflwr ein trefi, ein pentrefi a'n ffyrdd, gan gynnwys cynyddu'r dirwyon am daflu sbwriel a chreu graffiti, targedau newydd i awdurdodau lleol o ran gweithredu, sefydlu gofynion newydd i fusnesau ofalu am eu heiddo, a sefydlu ymgyrch dros bedair blynedd ac ar gost o £16 miliwn i weithredu'n gymunedol.

Gan ddefnyddio'r ddeddf newydd, Deddf Llywodraeth Cymru 2006, fe geisiwn ni bwerau newydd i daclo pob ffurf ar lygru'r amgylchedd, reoli gwastraff, ac i hybu ymddygiad sy'n diogelu amgylchedd ein gilydd.

Bwriadwn wella llawer iawn ar y gwasanaeth ieuenctid – strategaeth genedlaethol i sicrhau bod awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid i gyd yn cydweithio'n well i roi i bobl ifanc y cyfleoedd a haeddant. Fe gymerwn ni gamau i sicrhau y gall pobl ifanc a chymunedau ddefnyddio cyfleusterau yn yr ysgolion. I wneud i hyn i gyd ddigwydd, fe sefydlwn ni gronfa o £20 miliwn i wella gwasanaethau ieuenctid lleol a dal i gynyddu mynediad i gyfleusterau ysgolion.

Wrth galon ein hymagwedd at hyn, mae ymrwymiad i elfennau hanfodol cymunedau mwy diogel, sef hawliau, cyfrifoldebau a pharch. Mae pobl ifanc yn haeddu cael parch y cenedlaethau eraill ond mae angen i bobl ifanc yn eu tro barchu ei gilydd a'r cymunedau y maent yn rhan ohonynt. Nid oes esgus dros ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ond sylweddolwn fod angen rhagor o gyfleoedd a gwasanaethau i helpu pobl ifanc i fod yn fwy egnïol, i gael hwyl ac i feithrin parch i'w gilydd ac i genedlaethau eraill.

Gweledigaeth i lywodraeth leol

Gan fod Llafur yn credu mewn cynghorau lleol cryf ac atebol, mae Llafur yn y Cynulliad wedi bod yn cydweithio'n agos â phob awdurdod lleol, wedi darparu'r cyllid ac wedi pennu'r safonau i sicrhau gwell gwasanaethau lleol. Credwn mewn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng rhoi i gynghorau y rhyddid y mae arnynt ei angen i wneud eu cymunedau'n gryfach a sicrhau eu bod yn gyfrifol wrth wario arian y trethdalwyr.

Mewn trydydd tymor fe weithredwn ni weledigaeth gref ar gyfer dyfodol llywodraeth leol yng Nghymru. Wrth galon y weledigaeth honno fe fynnir bod gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio'n agosach ac yn hoelio'u sylw ar y dinesydd. Mewn ardal leol, bydd hynny'n golygu

● Fe gynyddwn ni'r dirwyon am daflu sbwriel ac am graffiti

y dylai'r cynghorau lleol, y GIG a gwasanaethau eraill gydweithio i roi gwell gwasanaethau i bobl. Cyflwynir safonau cenedlaethol cadarn i sicrhau bod pob gwasan aeth ym mhob rhan o Gymru yn cyrraedd y safon briodol.

Mae ar bobl yng Nghymru angen gwasanaethau cyhoeddus sy'n hygyrch ac wedi'u cydlynu'n dda yn eu cymdogaeth leol, eu cymuned, eu tref neu eu pentref. Mae angen iddynt ymwneud â darparwyr gwasanaethau cyhoeddus ar y lefel leol honno. Mae gan gynghorwyr effeithiol sydd â chymorth llawn rôl allweddol i'w chwarae wrth ymwneud â phobl leol a phledio'u hangen am wasanaethau cyhoeddus. Fe gymer Llafur gamau i sicrhau bod gwasan aethau lleol yn ymateb hyd yn oed yn fwy parod i bobl leol ac y caiff cynghorwyr lleol well cymorth i gyflawni'u rôl o ymwneud yn llawnach â phobl leol.

Byddwn ni'n dal i wrthwynebu cyflwyno cynrychiolaeth gyfrannol yn etholiadau cynghorau lleol. Credwn y byddai rhoi heibio'r drefn bleidleisio bresennol yn tanseilio atebolrwydd uniongyrchol cynghorwyr i'r cymunedau a wasanaethant ac yn amharu ar effeithiolrwydd llywodraeth leol.

Mae trethi'r cynghorau yng Nghymru bump ar hugain y cant yn is, Band D am Fand D, nag yn Lloegr oherwydd y flaenoriaeth y mae Llywodraeth Lafur y Cynulliad wedi'i rhoi i ddarparu grantiau i awdurdodau lleol. Fe ddaliwn i roi'r cymorth angenrheidiol y bydd ei angen i ganiatáu cadw'r cynnydd yn nhreth y cyngor i lefel resymol. Fe gedwir pŵer wrth gefn i gapio cynnydd gormodol yn nhreth y cyngor.

Gwella gwasanaethau cyhoeddus

Mae Llafur yn deall ein bod ni'n sicrhau gwelliannau yn y gwasanaethau cyhoeddus pan weithiwn ni gyda'r bobl sy'n eu darparu. Fe roddwn ni ar waith Gytundeb Partneriaeth Gymdeithasol i'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac ynddo bydd Llywodraeth y Cynulliad, yr undebau llafur a chyflogwyr yn eu hymrwymo'u hunain i bartneriaeth i sicrhau newidiadau a gwelliannau.

Gwell gwasanaethau cyhoeddus

Yr ydym wedi cyflawni'n haddewid i fuddsoddi dros £1 billwn mewn moderneiddio ysgolion, ysbytai a meddygfeydd.

Yr ydym wedi rhagori ar ein hymrwymiad i fuddsoddi dros £1 biliwn mewn moderneiddio ysgolion, ysbytai a meddygfeydd dros y pedair blynedd diwethaf. Fe ddatblygwn ni ffyrdd newydd o sicrhau'r datblygiadau cyfalaf y mae eu hangen, a sicrhau gwasanaethau o safon ac amodau gweithio da. Fe sefydlwn ni Fwrdd Buddsoddi Cyfalaf Strategol i sicrhau bod y cyfalaf a fuddsoddir gan y sector cyhoeddus a thrwy fudiadau dielw yn ateb anghenion pobl yng Nghymru ac yn gwneud y defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael.

Diwylliant a Chwaraeon i Bawb

Ers 1999 mae Llafur Cymru wedi buddsoddi mwy nag erioed mewn ehangu cyfleoedd yn y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon. Yr ydym wedi cynyddu'r buddsoddiad mewn cynorthwyo'r Gymraeg ac wedi rhoi mynediad am ddim i bobl i amgueddfeydd ac orielau. Caiff pensiynwyr a phlant ysgol nofio am ddim mewn pyllau nofio cyhoeddus. Mae gan ein prifddinas ganolfan berfformio o'r radd flaenaf i'r celfyddydau, sef Canolfan Mileniwm Cymru. Ledled y genedl, yr ydym wedi adeiladu ac ailwampio canolfannau diwylliannol, o Galeri yng Nghaernarfon i'r Ganolfan Glan Dŵr yng Nghasnewydd. Mae cronfa o £2 miliwn i'r celfyddydau y tu allan i Gaerdydd wedi rhoi perfformiadau newydd a gwell ar lwyfannau ledled Cymru sy'n newydd neu wedi'u hailwampio.

Wrth galon ein hymagwedd at ddiwylliant a chwaraeon mae ymrwymiad i roi cyfle i bawb. Credwn mewn perfformiadau dethol ond nid i gynulleidfaoedd dethol. Yr ydym yn benderfynol o sicrhau bod y cyfle i fwynhau gweithgareddau cyfoethog yng Nghymru, o ran diwylliant a chwaraeon, ar gael i bawb. Dyna pam yr ydym ni, yn ein dau dymor gyntaf, wedi rhoi cyfle i fwy o bobl nag erioed ddysgu Cymraeg, wedi trefnu mynediad am ddim i amgueddfeydd ac orielau yng Nghymru ac wedi datblygu cynlluniau nofio am ddim i bawb. Y tu ôl i bob un o'r cynlluniau hynny yr oedd awydd angerddol i ehangu mynediad a chyfle.

Mae Llafur wedi ymrwymo i sicrhau dyfodol cryf i'r iaith Gymraeg. Gan ei bod hi'n gaffaeliad diwylliannol unigryw i'r genedl, does gan

- Gall pensiynwyr nofio am ddim ym mhyllau nofio'r cynghorau, a gall pobl ifanc nofio ynddynt am ddim ar y penwythnos

- Fe ddeddfwn i sefydlu Dyfarnydd. Ni fydd unrhyw ddeddfwriaeth i orfodi busnesau yn y sector cyhoeddus, fel ffatrïoedd, siopau a banciau, i weithredu yn Gymraeg

● Gan adeiladu ar lwyddiant mynediad am ddim i amgueddfeydd ac orielau, fe roddwn fynediad am ddim i bensiynwyr Cymru ac i blant Cymru i safleoedd treftadaeth a noddir gan y Cynulliad

yr un blaid na charfan yr hawl i honni bod yn berchen arni. Dros yr wyth mlynedd diwethaf, yr ydym wedi ategu'n gair ag arian wrth i'r Cynulliad wario £28m yn rhagor dros y tair blynedd diwethaf ar gefnogi'r iaith.

Mae cynnydd mawr wedi'i wneud o ran helpu rhagor o bobl i ddysgu ac i siarad Cymraeg. Yn gwbl gywir, mae rheidrwydd cyfreithiol ar gyrff cyhoeddus preifat, i ddefnyddio'n dwy iaith genedlaethol. Fe ddeddfwn i sefydlu Dyfarnydd, i fod yn gymrodeddwr diduedd o'u cynlluniau iaith Gymraeg, ac i gynghori'r Llywodraeth. Ni fydd unrhyw ddeddfwriaeth i orfodi busnesau yn y sector preifat fel ffatrïoedd, siopau a banciau, i weithredu yn Gymraeg. Credwn mai ymwneud â buddsoddi'n gadarnhaol, ac nid gorfodaeth a sancsiynau, yw'r ffordd orau ymlaen i'r iaith Gymraeg.

Gan mai yn nwylo plant a phobl ifanc y mae dyfodol yr iaith, fe anogwn ni gynghorau lleol i ymateb yn gadarnhaol i'r galw cynyddol am addysg drwy'r Gymraeg. Fe gefnogwn ni ysgolion cyfrwng Saesneg os penderfynant gynnig y dewis o gymryd rhai pynciau drwy'r Gymraeg. Fe anogwn ni rieni sy'n siarad Cymraeg i drosglwyddo'r rhodd o ddwyieithrwydd i'w plant drwy ariannu rhaglen Twf ledled y genedl.

Fe weithredwn ni argymhellion Adolygiad Stephens i ddyfodol y celfyddydau yng Nghymru. Fe osodwn rwymedigaeth statudol ar gynghorau lleol i hybu diwylliant a'u hannog i weithio gyda'i gilydd a chyda phartneriaid eraill yn y sectorau gwirfoddol a phreifat i gyflwyno profiadau diwylliannol o safon i'w cymunedau.

Gan adeiladu ar lwyddiant mynediad am ddim i amgueddfeydd ac orielau, fe ddaliwn i gynnig mynediad am ddim i bartïon ysgol ac fe ddarparwn dalebau i blant a'u teuluoedd gael mynediad am ddim. I sicrhau na chaiff cyfraniad cymunedau gweithiol i hanes a datblygiad Cymru byth ei anghofio, fe sefydlwn ni Gasgliad Cymru-gyfan o Hanes y Bobl, ac ategu hynny â staff curadurol parhaol a fydd yn gyfrifol am hyrwyddo a datblygu'r casgliad.

Gan weithio gyda chynghorau lleol fe sefydlwn ni raglen fawr o fuddsoddi cyfalaf ac ailwampio'n rhwydwaith o lyfrgelloedd cyhoeddus. Fe ddaliwn i fuddsoddi mewn gwella'r TGCh mewn llyfrgelloedd, gan gynnwys cadw mynediad am ddim i bawb i'r Rhyngrwyd i helpu i ddod â hwy i mewn i'r 21ain ganrif. Fe gyflwynwn ni wasanaethau llyfrgell mwy hyblyg a chyfleus i ddefnyddwyr. Fe helpwn ni amgueddfeydd ac archifdai lleol â grantiau i wella'u gwasanaethau.

Y cynlluniau nofio-am-ddim i bobl hŷn a phlant ysgol oedd y cynlluniau cenedlaethol cyntaf o'u bath yn unman yn Ewrop. Mae llwyddiant y cynllun wedi bod yn rhyfeddol gan i gynnydd enfawr fod yn nifer y bobl hŷn a phlant ysgol sydd wedi manteisio ar y cyfle i nofio. Fe ddaliwn i ariannu'r cynlluniau hynny yn ein trydydd tymor. Fe estynnwn ni gryn dipyn ar y cynllun i blant drwy roi cyfle i bob plentyn ddefnyddio cyfleuster chwaraeon, cyfleuster hamdden neu bwll nofio yn rhad ac am ddim ar benwythnosau.

Fe gynyddwn ni'r buddsoddiad mewn chwaraeon ysgol a rhoi hwb i weithgareddau ar ôl ysgol, gan gynnwys parhau i gefnogi Campau'r Ddraig a chynlluniau i gynyddu cyfranogiad merched. I helpu i hybu chwaraeon ar lawr gwlad, fe hyfforddwn ni ragor o hyfforddwyr i safonau diweddaraf Prydain a sicrhau bod plant ysgol yn gwneud o leiaf bum awr o weithgarwch corfforol yr wythnos.

Fel rhan o'r paratoi ar gyfer gemau Olympaidd 2012, fe gyflwynwn ni Gemau Ysgolion Llwyddiannus Prydain yng Nghaerdydd, Abertawe a Chasnewydd yn 2009, a bydd hynny'n llwyfan i helpu'n mabolgampwyr ifanc i gyflawni eu holl botensial. Edrychwn ymlaen at gynnal Cwpan Ryder, y twrnamaint golff amlycaf yn y byd, yn 2010. Byddwn ni'n sicrhau y caiff manteision y digwyddiadau hynny eu lledu i bob rhan o Gymru. Fe grëwn ni ragor o gyfleoedd hwyliog ac iach i laweroedd o bobl gymryd rhan mewn digwyddiadau cerdded, beicio a rhedeg. Mewn trydydd tymor, fe weithiwn ni gyda Supporters Direct i roi i gefnogwyr pob camp yng Nghymru fwy o lais yn y ffordd y rhedir eu clybiau.

● Y cynlluniau nofio-am-ddim i bobl hŷn a phlant ysgol oedd y cynlluniau cenedlaethol cyntaf o'u bath yn unman yn Ewrop

Hanes y Bobl

Fe sefydlwn ni Gasgliad Cymru-gyfan o Hanes y Bobl i sicrhau na chaiff cyfraniad y gweithwyr i ddatblygiad Cymru fodern byth ei anghofio.

Cymru deg

● Ers 1999 gwelwyd gostyngiad o **20%** yn nifer y plant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru

Taclo tlodi plant

Y gwaddol mwyaf difäol a pharhaus a adawyd gan y Toriaid oedd lefel tlodi plant yng Nghymru. O dan Thatcher a Redwood fe wastraffwyd talent ac amddifadwyd plant o'r cyfle i fyw bywydau llawn.

Ers 1999 gwelwyd gostyngiad o ugain y cant yn nifer y plant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru. Ddegawd yn ôl, yr oedd lefel y plant a oedd yn byw mewn tlodi yng Nghymru ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ym Mhrydain. Erbyn heddiw, mae'r gyfradd yng Nghymru wedi gostwng hyd at y lefel gyffredinol ym Mhrydain a'r gwelliant hwnnw wedi digwydd ymhellach ac yn gynt yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o Brydain.

Er bod cryn gynnydd wedi'i wneud o ran cwtogi ar dlodi plant yng Nghymru, mae ffordd hir i fynd eto gan fod 170,000 o blant, dros pump ar hugain y cant o'r boblogaeth o blant, yn dal mewn tlodi.

Erbyn 2010 byddwn ni'n gostwng nifer y plant sydd mewn tlodi yng Nghymru i hanner y lefelau y gwnaethom eu hetifeddu oddi wrth y Toriaid ym 1997. Erbyn 2020, byddwn ni wedi'i ddileu'n llwyr. Ni ellir sicrhau hynny ond drwy bartneriaeth Llafur – Llafur sy'n cydweithio yn San Steffan a'r Cynulliad.

Mae Llafur bob amser wedi cefnogi ei gweledigaeth â gweithredu ymarferol. Dyna pam y cyflwynwyd brecwastau ysgol am ddim i blant ysgolion cynradd a pham yr ydym yn targedu buddsoddiad i godi safonau yn ein hysgolion. Mewn trydydd tymor fe ddaliwn ni i gymryd camau ymarferol i wneud gwahaniaeth pendant i fywydau plant.

I bob plentyn a fydd yn dechrau cael addysg orfodol amser-llawn fe gyflwynwn ni ychwanegiad o £50 i'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant, gan ei godi i £100 yn achos plant mewn teuluoedd incwm-isel. Bydd hynny'n helpu i roi hwb i gynilion plant yng Nghymru a gwella'u cyfleoedd yn ddiweddarach yn eu bywyd.

Mae Llafur yn deall nad mater o gynyddu incwm yn unig yw taclo tlodi plant. Fe ganolbwyntiwn ni ar gynyddu dyheadau plant o'r cefndiroedd tlotaf drwy roi iddynt y cyfleoedd a'r profiadau y cânt eu hamddifadu ohonynt fel rheol. Byddwn ni felly'n cynyddu'r buddsoddi yn y gwasanaeth ieuenctid ac yn helpu ysgolion i adeiladu partneriaethau creadigol â cherddorion, artistiaid a chlybiau chwaraeon i sicrhau y caiff pob plentyn yng Nghymru gyfle i gymryd rhan mewn gweithgarwch allgyrsiol buddiol. Y tu hwnt i oedran ysgol, byddwn ni'n monitro'r cyfranogi mewn addysg bellach ac uwch i hybu manteisio ar hynny yn yr ardaloedd lle mae'r nifer lleiaf o bobl ifanc yn aros ym myd addysg.

Am fod pob un o'n plant yn haeddu cael y dechrau gorau mewn bywyd, fe ddarparwn ni le meithrin rhan-amser am ddim i bob plentyn dwy oed mewn cymunedau difreintiedig yng Nghymru drwy'r cynllun Dechrau'n Deg.

Gan ddefnyddio pwerau newydd y Cynulliad, bydd Llafur yn cynyddu'n hymdrechion ar ran plant yng Nghymru drwy geisio'r pŵer i ddiwygio'r gyfraith mewn perthynas â phlant bregus yng Nghymru, gan gynnwys gweithredu ynghylch tlodi plant. Bydd hynny'n gosod rheidrwydd cyfreithiol ar asiantaethau cyhoeddus fel y GIG a llywodraeth leol i gyfrannu, ac amlygu eu cyfraniad, i daclo tlodi plant. Ochr yn ochr â hynny, fe gyflwynwn ni bolisi o osod tlodi plant yn faen prawf i holl fentrau Llywodraeth y Cynulliad. Mae hynny'n golygu pwyso a mesur pob menter gan y Cynulliad yn erbyn ein cenhadaeth i ddileu tlodi plant.

Fe weithredwn ni raglenni i helpu'r teuluoedd tlotaf yng Nghymru i gynyddu cymaint â phosibl ar yr incwm a gânt a'u diogelu rhag benthycwyr arian diegwyddor. I wneud hynny, byddwn ni'n ehangu'r gwasanaethau sy'n cynghori ynghylch budd-daliadau a dyledion, yn gwella addysg ariannol ac yn sicrhau bod modd i bob myfyriwr mewn ysgol uwchradd yng Nghymru ymaelodi ag undeb credyd.

Dim ond Llafur yn y Cynulliad, gan weithio mewn partneriaeth â Llafur yn San Steffan, sydd â'r ymrwymiad a'r syniadau i ddileu tlodi plant yng Nghymru erbyn 2020. Bydd hynny'n un o nodau pwysicaf ein trydydd tymor mewn grym ac yn ymrwymiad gwleidyddol a wnaiff Gymru'n wirioneddol decach gwlad.

● Erbyn 2010 byddwn ni wedi haneru tlodi plant yng Nghymru o'r lefelau y gwnaethom eu hetifeddu oddi wrth y Toriaid ym 1997. Erbyn 2020, byddwn ni wedi'i ddileu'n llwyr

● I bob plentyn a fydd yn dechrau cael addysg orfodol amser-llawn fe gyflwynwn ni ychwanegiad o £50 i'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant, gan ei godi i £100 yn achos plant mewn teuluoedd incwm-isel

Gweithredu ynghylch tlodi plant

Gan ddefnyddio pwerau newydd y Cynulliad, byddwn ni'n gweithredu i daclo tlodi plant a chynorthwyo'n plant mwyaf bregus.

● Yn ein trydydd tymor fe fuddsoddwn ni £450 miliwn mewn tai cymdeithasol a fforddiadwy newydd

Dod â bywyd newydd i'n trefi, ein dinasoedd a'n pentrefi

Mae Llafur wedi ymrwymo i gymunedau bywiog a chryf. Hoffem i'n trefi, ein pentrefi a'n dinasoedd fod yn lân a diogel ac yn lleoedd y byddai pobl yn dymuno byw a gweithio ynddynt. Rhoes ein tymor cyntaf a'n hail gychwyn egnïol i'r broses o adfywio'n cymunedau drwy gyfrwng rhaglen arloesol Cymunedau'n Gyntaf, cronfeydd strwythurol Ewrop, ardaloedd adnewyddu a thrwy fuddsoddi yn ardal Blaenau'r Cymoedd. Yn ein trydydd tymor fe ddaliwn ni i roi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn adfywio cymunedau yng Nghymru.

Mae tai'n hollbwysig wrth adnewyddu cymunedau. Yn ein hail dymor fe gynyddon ni 64% ar y buddsoddi yn y grant i dai cymdeithasol a chyflwyno cyfarwyddyd cynllunio newydd i gynyddu nifer y tai fforddiadwy a fydd ar gael. Yn ein trydydd tymor fe fuddsoddwn ni £450 miliwn mewn tai cymdeithasol a fforddiadwy newydd a helpu i adeiladu 6,500 o dai newydd fforddiadwy.

Fe geisiwn ni bwerau deddfwriaethol newydd i allu cadw'r gronfa o dai sydd ar gael i'w rhentu mewn ardaloedd lle mae mawr angen tai, a hynny fel un mesur i gynyddu nifer y tai fforddiadwy a fydd ar gael. Ochr yn ochr â hynny, fe nodwn ni dir sy'n eiddo cyhoeddus a threfnu iddo fod ar gael i ddatblygu tai cost-isel arno i helpu prynwyr tro-cyntaf i brynu eu cartref cyntaf. Gosodir rheolau newydd a gwyrdd ar bob datblygiad tai ac adeilad newydd gan fynnu'r safonau uchaf posibl ym maes effeithlonrwydd ynni.

Rhaglen Blaenau'r Cymoedd yw'r cynllun adfywio mwyaf o'i fath ym Mhrydain. Yn ein trydydd tymor byddwn ni'n dal i ddeuoli Ffordd Blaenau'r Cymoedd, yn adfywio cyfres o ganolfannau trefi gan gychwyn gydag Abertyleri, Blaenafon, Bargod, Merthyr Tudful a Glyn Rhedynog, a hefyd yn manteisio ar botensial cynilun datblygu tai ar gost o £700m. Bydd y cynlluniau adfywio hynny'n darparu cyflogaeth ychwanegol, yn bodloni'r safonau amgylcheddol uchaf, yn cwtogi hyd yr eithaf ar effeithiau carbon y cynlluniau hynny ac yn adeiladu tai a chymunedau cynaladwy sy'n defnyddio ynni'n effeithlon.

Mae Llafur bob amser wedi deall bod adfywio cymunedau yn mynnu ymrwymiad tymor-hir gan y llywodraeth a'r sector cyhoeddus. Dyna pam y bydd Llafur, yn ein trydydd tymor, yn parhau i ariannu adfywio'r cymunedau lleiaf llewyrchus yng Nghymru drwy gyfrwng rhaglen Cymunedau Nesaf.

Fe gynhaliwn ni raglen o adfywio i hybu'r cyfleoedd i bobl a chymunedau. Fe fanteisiwn i'r eithaf ar arian adfywio o Ewrop i helpu i ddod â bywyd newydd i'n cymunedau difreintiedig. Fe ddarparwn ni gyllid i helpu i sefydlu marchnadoedd ffermwyr mewn trefi ledled Cymru. Bydd hynny'n helpu i dynnu pobl i ganol ein trefi ac yn rhoi cyfle i ffermwyr werthu eu cynnyrch yn uniongyrchol i bobl leol. Fe hybwn ni Gymru fel cenedl masnach deg.

● Bydd Llafur yn parhau i ariannu adfywio'r cymunedau lleiaf llewyrchus yng Nghymru

● Fe ddarparwn ni gyllid i helpu i sefydlu marchnadoedd ffermwyr mewn trefi ledled Cymru

Cymru Werdd

Rhagymadrodd

Yn ein tymhorau cyntaf ac ail fe arloesodd Llafur drwy gymryd camau i hybu cynaladwyedd a gwneud ein cymunedau'n fwy gwyrdd a glân. Mewn trydydd tymor fe weithredwn ni bolisïau ymarferol o daclo'r newid yn yr hinsawdd a gwella'r amgylchedd lleol. Yr ydym yn benderfynol o adael Cymru lân, werdd a chynaladwy i'r cenedlaethau a ddaw, ac nid gwaddol o lygredd a datblygu anghynaladwy.

Mae Llafur yn chwarae rôl allweddol ar y llwyfan ryngwladol wrth ddod o hyd i atebion byd-eang i'r sialensiau sy'n codi o'r newid yn yr hinsawdd - o gytundeb diweddar yr Undeb Ewropeaidd i gwtogi ar allyriadau nwyon tŷ-gwydr erbyn 2020 i uwch-gynhadledd yr G8 sydd i'w chynnal yn ddiweddarach eleni. Ddechrau Mawrth, cyhoeddodd Llafur y Mesur Newid yn yr Hinsawdd a wnaiff sicrhau mai Prydain fydd y wlad gyntaf yn y byd i gyflwyno targedau a fydd yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol i gwtogi 60% ar allyriadau o garbon deuocsid erbyn 2050. Mae Llafur Cymru wedi bod yn gweithio wrth galon y llywodraeth i sicrhau bod Cymru'n cyfrannu'n briodol i gyflawni'r targedau cyffredinol hynny i Brydain.

Mae gan wlad fach fel Cymru gyfrifoldeb i gwtogi ar ein hallyriadau a dangos sut y gallwn ni gwtogi ar wastraffu ynni a byw o fewn yr ynni sydd gennym. Bydd Llywodraeth Lafur yn y Cynulliad yn dal i roi arweiniad cryf i'r cyhoedd a'r sector preifat yn ein cydymdrechion i daclo'r newid yn yr hinsawdd.

Cymru: wrthi'n arwain y byd o ran ynni adnewyddadwy

Bydd Llafur yn taclo her y newid yn yr hinsawdd drwy roi cynaladwyedd wrth galon ein strategaeth economaidd. Fe helpwn ni fusnesau yng Nghymru i fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan y galw cynyddol am dechnoleg amgylcheddol, ac fe gynyddwn ni'r cymorth i gwmnïau i'w helpu i gwtogi ar eu hallyriadau o garbon ac i symud i ddefnyddio ynni'n gynaladwy.

Mewn trydydd tymor fe ddaliwn i gynorthwyo ynni adnewyddadwy, a defnyddio grym y môr a'r gwynt yn arbennig. Fe ehangwn ni waith Canolfan Ymchwil Ynni Cymru i helpu i roi Cymru ar y map fel datblygwr blaenllaw ar ynni a thechnoleg adnewyddadwy. Yr ydym yn cefnogi astudiaeth adroddiad y Comisiwn Datblygu Cynaladwy o ddatblygu Morglawdd Hafren ac fe roddwn ni ystyriaeth ofalus a gweithgar i'r argymhellion. Yr ydym yn cydnabod bod cynhyrchu pŵer niwclear yn dal i fod yn ddewis yn y ddadl ynghylch cwtogi ar allyriadau carbon mewn unrhyw gyflenwad cymysg o ynni yn y dyfodol.

Fe wnawn ni ddwyn ymlaen y cynlluniau ar Fap Llwybr Ynni Cymru i sicrhau cyflenwad cytbwys a chynaladwy o ynni, gan gynnwys dyfodol hyfyw i'r diwydiant glo yng Nghymru, a hwnnw'n un glân a diogel. Bydd Llafur yn y Cynulliad yn darparu cymorth i ddatblygu technoleg glo glân. Fe roddwn ni'r wedd derfynol ar gyfarwyddyd cynllunio i gyflwyno tir gwag o amgylch safleoedd cloddio glo brig.

Yr allwedd i daclo'r newid yn yr hinsawdd yw harneisio potensial aruthrol microgynhyrchu ac effeithlonrwydd ynni. I helpu i wneud hynny, fe wnawn ni ddwyn ymlaen strategaeth ficrogynhyrchu i gynyddu'r ynni domestig a'r ynni busnes a gynhyrchir drwy ffynonellau adnewyddadwy. Fe weithiwn at wneud 100,000 o gartrefi'n ynni-effeithlon ac at gael 30,000 o unedau pŵer haul ac unedau microgynhyrchu eraill ar adeiladau ledled Cymru erbyn 2012. Yr ydym wedi cyflwyno cyfarwyddyd newydd i sicrhau bod gofyn i bob datblygiad ac adeilad newydd, o dan y gyfraith gynllunio, gynhyrchu cyfran o'u hynni o ffynonellau adnewyddadwy fel tyrbinau gwynt a phaneli solar ac fe awn ni â hynny ymhellach drwy weithio at ein dyhead i sicrhau na fydd unrhyw adeilad a godir o 2011 ymlaen yn cynhyrchu carbon. I gryfhau ffydd y defnyddiwr mewn technolegau newydd fe sefydlwn ni rwydwaith cynhwysfawr i gynghori ynghylch ynni.

Mae rôl y sector cyhoeddus yng Nghymru o ran taclo'r newid yn yr hinsawdd yn mynd y tu hwnt i gyflwyno rheoliadau i eraill eu dilyn. Dros y pedair blynedd nesaf bydd y sector cyhoeddus yng Nghymru, gyda Llafur, yn cynyddu'r ynni a gynhyrchir mewn adeiladau cyhoeddus o ffynonellau microadnewyddadwy. Bydd gofyn i ddatblygiadau newydd gan y sector cyhoeddus gynhyrchu cyfran o'u gofynion ynni

- Byddwn ni'n sicrhau bod holl adeiladau'n llywodraeth ni'n garbon-niwtral erbyn 2012

- Fe weithiwn at gael 30,000 o unedau pŵer haul ac unedau microgynhyrchu eraill ar adeiladau ledled Cymru erbyn 2012

● Mewn trydydd tymor byddwn ni'n gosod cynaladwyedd wrth galon y cwricwlwm cenedlaethol, yn cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu yn yr awyr agored, ac yn cynyddu nifer yr Eco-Ysgolion ledled Cymru

o ficrogynhyrchu a chyrraedd y safonau uchaf o ran effeithlonrwydd ynni. Fe gynyddwn ni'r buddsoddiad i wneud yr adeiladau cyhoeddus presennol yn fwy effeithlon o ran ynni, ac erbyn 2012 byddwn ni'n sicrhau bod ystâd y llywodraeth yng Nghymru yn garbon-niwtral. Yn y tymor hir, bydd hynny'n helpu i gwtogi ar ôl-troed ecolegol Cymru ac yn arbed arian cyhoeddus.

Cymru fwy glân a gwyrdd

Yn wahanol i'r Torïaid, fe ategir ein hymrwymiad i'r amgylchedd â gweithredu. Dyna pam y byddwn ni, yn ein trydydd tymor, yn hoelio sylw ar weithredu'n ymarferol i wella ansawdd yr amgylchedd yng Nghymru. Fe gyflwynir rheolau newydd i warchod a gwella mannau gwyrdd a chymerir camau i atal y dirywiad ym mioamrywiaeth Cymru. Bydd hynny'n cynnwys cymryd camau i wella amgylchedd ein môr a'n harfordir, a gwaith ar astudio'r cyflenwadau yn y môr.

Cyflwynir rheoliadau newydd a llym i gwtogi ar ddefnyddio plaleiddiaid niweidiol ar ffermydd ac fe ddaliwn i hyrwyddo ffermio cynaladwy yng Nghymru. Fe adolygwn ni bob cynllun amaeth-amgylcheddol gan geisio cyflwyno cynllun symlach a llai biwrocrataidd sy'n cynnig gwell gwerth i'r trethdalwr. Bydd Cymru'n dal i weithredu'r polisi mwyaf cyfyngus posibl ar gnydau sydd wedi'u haddasu'n enetig.

Un o'r sialensiau i'r genhedlaeth hon yw paratoi'r to nesaf ar gyfer y penderfyniadau y byddant yn gorfod eu cymryd i ddiogelu dyfodol y blaned. Mewn trydydd tymor byddwn ni'n gosod cynaladwyedd wrth galon y cwricwlwm cenedlaethol, yn cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu yn yr awyr agored, ac yn cynyddu nifer yr Eco-Ysgolion ledled Cymru.

Heddiw, oherwydd y camau a gymerwyd gan Lafur i agor ein cefn gwlad, mae mwy nag erioed o dir ar gael i gerdded arno. Fe adeiladwn ni ar Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy drwy agor rhagor ar ein hamgylchedd naturiol syfrdanol o hardd, a hynny drwy ddatblygu mynediad agored i'r arfordir drwy gael llwybr ar hyd arfordir Cymru gyfan. Fe ymchwiliwn ni hefyd i greu hawl statudol i gael mynediad i'r arfordir.

Yn ein tymor cyntaf, fe sefydlon ni Gomisiwn Dylunio Cymru, corff sy'n chwarae rôl bwysig wrth sicrhau cynaladwyedd ar hyd a lled ein hamgylchedd adeiledig. Yn ein trydydd tymor, fe geisiwn ni osod Comisiwn Dylunio Cymru ar sylfaen statudol. Fe ddaliwn i weithio i sicrhau bod y system gynllunio'n barotach i ymateb i gymunedau lleol.

Pwerau newydd i sicrhau system gludiant werdd a diogel

Rhaid i economi llwyddiannus sydd o fudd i bob rhan o Gymru wrth isadeiledd cludiant modern. Yn ein hail dymor fe lansion ni gynllun cludiant 15-mlynedd a fydd yn costio £8 biliwn. Mae'n buddsoddiad eisoes yn dwyn ffrwyth, er enghraifft, yn y cynnydd ar ddeuoli Ffordd Blaenau'r Cymoedd, y rheilffordd sydd ar fin cael ei hailagor i Lynebwy, ffordd gyflym i fysiau yn Abertawe a ffordd newydd i gysylltu porthladd a thref Caergybi. Byddwn ni'n dwyn ymlaen ddarpariaethau Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006.

Mewn trydydd tymor bydd Llafur yn dal i flaenoriaethu'r buddsoddi yn ein hisadeiledd cludiant, gan gynnwys gwella rhagor ar y cysylltiadau rheilffordd rhwng y De a'r Gogledd ac ar Reilffyrdd y Cymoedd. Fe foderneiddiwn ni lwybrau strategol ein ffyrdd a'n rheilffyrdd a chynnig atebion cynaladwy i ateb ein hanghenion economaidd ac amgylcheddol ym maes cludiant yn y dyfodol.

O dan y pwerau newydd sydd wedi'u rhoi i Lywodraeth y Cynulliad, fe ddatblygwn ni lwybr y Traws Cambria yn Rhwydwaith Cymru-gyfan i Deithio ar Drenau a Bysiau yng Nghymru, gan helpu i roi i deithwyr a chymunedau y system gludiant unedig ac integredig y mae arnynt eu hangen. Caiff y miloedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn well cysylltiadau ac amserau teithio byrrach.

Fel rhan o'n cynllun cludiant 15-mlynedd, byddwn ni'n gwella'r A40 i'r gorllewin o Sanclêr yn Sir Gaerfyrddin, yn cryfhau rôl strategol Caergybi, ac yn ystyried y dewisiadau ar gyfer ffordd rhwng yr M4 a Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd a'r Academi Hyfforddiant Amddiffyn yn Sain Tathan.



Fe gynigiwn ni ddewisiadau cyfleus a hygyrch - yn lle'r car - drwy fuddsoddi yn ein rhwydwaith cludiant cyhoeddus, gan gynnwys cael 50 o gerbydau teithio newydd ac ychwanegol i fasnachfraint Cymru a'r Gororau. Fe geisiwn ni estyn y teithio ar ddisgownt ar reilffyrdd y tu allan i'r oriau brig i bensiynwyr Cymru ar wasanaethau Cymru a'r Gororau. Fe gyflwynwn ni Gerdyn Call newydd er mwyn i'r henoed a'r anabl sy'n teithio ar fysiau allu cael mwy o ddewis a chyfleustra wrth dalu prisiau gostyngol am deithio. Erbyn 2011 fe estynnwn ni ddefnyddio'r Cerdyn Call i bob taith ar fws yng Nghymru a phob taith ar reilffyrdd Cymru a'r Gororau yng Nghymru. Fe wellwn ni wasanaethau bysiau lleol gan roi rhagor o bŵer i awdurdodau lleol weithio gyda chwmnïau bysiau preifat i sicrhau rhagor o integreiddio a gwell gwasanaeth i deithwyr.

Fe ddynodwn ni drefi teithio cynaladwy a fydd yn cynnwys rhagbrofion ar gyfer cludiant sy'n ymateb i'r galw am gael teithio i gyrchfannau lle mae tagfeydd mawr. Fe hyrwyddwn ni gyfleoedd newydd i gerdded a beicio, a chynnig dewis o gludiant cyhoeddus yn lle'r car.

Mae gan Gludiant Cymunedol rôl hollbwysig i'w chwarae fel rhan o rwydwaith cludiant modern ac integredig. Fe gynyddwn ni'r buddsoddi mewn cludiant cymunedol ac estyn cynlluniau i helpu i gynnig rhagor o gyfleoedd i bobl weithio. Fe wnawn ni sicrhau y clywir llais defnyddwyr pob gwasanaeth cludiant yng Nghymru drwy sefydlu Pwyllgor Teithwyr Cludiant i Gymru.

Fe gynyddwn ni ddiogelwch teithwyr drwy weithio gyda Llywodraeth Lafur Prydain a chwmnïau cludiant i gynyddu'r presenoldeb plismona ar ein rhwydwaith cludiant cyhoeddus a thrwy wella'r goleuo a'r diogelwch mewn gorsafoedd. Gan ddefnyddio technoleg newydd fe wellwn ni'r gwasanaethau gwybodaeth i deithwyr mewn ffordd integredig ledled byd y ffyrdd a'r rheilffyrdd.

Yn ein trydydd tymor fe ehangwn ni ar lwyddiant y cynllun Llwybrau Diogel i'r Ysgol drwy sefydlu cynllun newydd a gwell o Lwybrau Diogel yn y Cymunedau. Bydd y cynllun hwnnw'n gwasanaethu ysgolion, canolfannau hamdden a chyfleusterau eraill. Fe sefydlwn ni gronfa o £100 miliwn i gynyddu diogelwch ar y ffyrdd. Fel rhan o'r pecyn mawr hwnnw, disgwyliwn weld cynnydd pellach o bwys yn nifer y parthau 20mya a chynlluniau diogelwch ar y ffyrdd.

Mae trasiedi wedi'n dysgu ni nad yw gwasanaethau cludiant ysgol bob amser mor ddiogel, nac wedi'u rheoleiddio cystal, ag y dylent fod. Gan ddefnyddio pwerau newydd y Cynulliad, fe awn ati'n gynnar i gyflwyno cynigion i gryfhau'r rheoli a'r archwilio ar wasanaethau bysiau ysgol. Bydd Llafur yn rhoi blaenoriaeth i gludiant ysgol yn rhaglen ddeddfwriaethol trydydd tymor.

● Bydd Llafur yn rhoi blaenoriaeth i gludiant ysgol yn rhaglen ddeddfwriaethol trydydd tymor